## Arolygiad thematig

## *Gwaith gwarediad tu allan i'r llys mewn timau troseddau ieuenctid*

**Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM**

***Mawrth 2018***

Cydnabyddiaethau:

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Ian Menary, a gefnogwyd gan Andrew Reed o Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM,[1] ynghyd â thîm o arolygwyr, yn ogystal â staff o dimau gweithrediadau ac ymchwil Arolygiaeth Prawf EM. Y Prif Arolygydd Cynorthwyol a oedd yn gyfrifol am y rhaglen arolygu hon oedd Helen Mercer. Hoffem ddiolch i bawb a oedd yn helpu i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; heb eu help a chydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

© Hawlfraint y goron 2018

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I edrych ar y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle ein bod wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint o dan sylw.

Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Llawr 1af

Manchester Civil Justice Centre

1 Bridge Street West

Manceinion

M3 3FX

[1] Roedd yr arolygiad hwn wedi cychwyn cyn 19 Gorffennaf 2017, pan gymerodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (HMIC) gyfrifoldeb hefyd am arolygu'r gwasanaethau tân ac achub, ac fe'i ailenwyd yn Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM (HMICFRS). Nid yw'r fethodoleg sy'n tanategu canfyddiadau'r arolygiad wedi'u heffeithio gan y newid hwn. Gall cyfeiriadau at Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM (HMICFRS) ymwneud â digwyddiad a ddigwyddodd cyn 19 Gorffennaf 2017 pan oedd HMICFRS yn HMIC. Bydd enwi dogfennau a gyhoeddwyd gan HMIC cyn 19 Gorffennaf 2017 yn parhau i enwi'r HMIC fel y cyhoeddwr.

## Rhagair

Yn yr arolygiad hwn, archwiliom y gwaith a wnaethpwyd gan Dimau Troseddau Ieuenctid (YOTs) a'r heddlu gyda phlant sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel (fel arfer) y delir â nhw heb fynd i'r llys, a adnabyddir fel gwarediadau tu allan i'r llys. Mae gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) y cyfle i weithio gyda llawer o'r plant hyn. Nid yw hyn yn opsiwn hawdd ar gyfer y plant hynny, fel a bortreadir weithiau. Canfuom waith da ac effeithiol yn aml gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) i'w gwneud yn llai tebygol y byddai plant yn aildroseddu, ac i'w galluogi i newid eu bywydau er gwell. Fodd bynnag, gyda rhai newidiadau penodol, gallai'r gwaith fod yn well fyth a gallai mwy o blant elwa, yn ogystal â chymunedau lleol a chymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Mae gwaith i ailgyfeirio plant rhag cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei gydnabod i fod yn stori lwyddiannus. Mae ein harolygiad yn cefnogi'r farn honno. Mae'n anodd profi'r llwyddiant yn empirig fodd bynnag, gan fod ychydig iawn o fonitro systematig, ar wahân i wybod bod nifer y newydd-ddyfodiaid wedi cwympo'n sylweddol ac yn gyson ers sawl blwyddyn.

Roedd yn dda gennym ganfod bod y rhan fwyaf o ardaloedd yn gweithredu cynlluniau ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys a oedd yn mynd y tu hwnt i ofynion lleiafswm, a weithiau'n mynd yn bell y tu hwnt iddynt. Roedd y gwaith wedi'i gysylltu'n dda'n strategol ac yn weithredol â mentrau lleol eraill oedd â'r bwriad o sicrhau na fydd plant yn aildroseddu. Canfuom fod y berthynas feirniadol a'r gweithio ar y cyd rhwng timau troseddau ieuenctid (YOTs) a'r heddlu'n dda yn gyffredinol. Yn gynyddol, roedd y penderfyniad ynghylch pa warediad y dylai plentyn ei dderbyn yn cael ei wneud ar y cyd, wedi'i hysbysu gan wybodaeth y tîm troseddau ieuenctid (YOT) o'r plentyn hwnnw.

Roedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn gwneud gwaith da'n gyffredinol i helpu'r plant hynny roeddent yn gweithio â nhw i atal troseddu; ond gyda gwell cynllunio ac asesu, a mwy o sylw'n cael ei roi i farn y plentyn, gallai'r gwaith hwn fod yn well fyth. Roedd staff timau ieuenctid troseddol (YOTs) a gyfwelwyd gennym yn fedrus, ac roeddent wedi ymrwymo i leihau'r niferoedd o ddioddefwyr a gwella cyfleoedd bywyd plant. Canfuom dystiolaeth yn aml o gynnydd cadarnhaol yn yr achosion a arolygwyd gennym.Nid oedd dioddefwyr, fodd bynnag, bob amser yn ymgysylltu â'r broses fel y dylent. Mae hyn yr un fath â chanfyddiadau arolygiadau blaenorol, ac felly mae angen ffocws newydd arno.

Mae atal plant rhag cychwyn troseddu, neu eu hymddygiad troseddol yn cael ei sefydlu, yn dda ar gyfer dioddefwyr posibl, yn dda i'r plant eu hunain, ac yn arbed y costau sylweddol a geir os bydd troseddau pellach yn digwydd. Yn yr adroddiad arolygu hwn rydym yn darparu set o ddangosyddion o waith gwarediad tu allan i'r llys o ansawdd da, ac yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i dimau troseddau ieuenctid unigol (YOT) a'u harweinyddion wrth iddynt werthuso eu gwaith eu hunain.

Rydym yn deall bod y gwaith hwn yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, fel y mae wedi bod i weinyddiaethau blaenorol. Dylai sicrhau ei fod mor effeithiol ag y gall fod, ei fod yn gwella cyfleoedd bywyd y plant sydd ynghlwm, a'i fod yn cael ei gynnal fod yn dda i bawb ohonom.

**Dame Glenys Stacey**
**Prif Arolygydd Prawf EM**

**Wendy Williams**
**Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EM**

**Mawrth 2018**

# Cynnwys

**Foreword**

**Ffeithiau allweddol**

**Gwarediadau tu allan i'r llys yn cael eu hesbonio**

**Executive summary**

**Recommendations**

**1** **Cyflwyniad**

1.1 Pam y thematig hwn?

1.2 Cefndir

1.3 Nodau ac amcanion

1.4 Amlinelliad o'r adroddiad

**2** Dangosyddion allweddol o waith gwarediad da tu allan i'r llys

**3** Llywodraethu ac arweinyddiaeth

3.1 Arweinyddiaeth a phartneriaethau strategol

3.2 Rheolaeth weithredol

3.3 Sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd

3.4 Casgliadau a goblygiadau

**4** Cyfraniad yr heddlu at waith gwarediad tu allan i'r llys gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs)

4.1 Canfyddiadau arolygiadau blaenorol

4.2 Cyfraniad yr heddlu at waith gwarediad tu allan i'r llys

4.3 Casgliadau a goblygiadau

**5** Prosesau gwneud penderfyniadau

5.1 Crynodeb o'r trefniadau yn y meysydd a arolygwyd

5.2 Gwneud penderfyniadau

5.3 Casgliadau a goblygiadau

**6** Arfer rheoli achosion

6.1 Asesu

6.2 Cynllunio

6.3 Cyflwyno'r gwaith

6.4 Canlyniadau cychwynnol

6.5 Llais y plentyn

6.6 Goblygiadau derbyn gwarediad tu allan i'r llys

6.7 Casgliadau a goblygiadau

**7** Darpariaeth gwarediad tu allan i'r llys yng Nghymru a Lloegr

7.1 Yr arolwg

7.2 Casgliadau a goblygiadau

**Cyfeiriadau**

**Appendix 1:** Glossary

**Atodiad 2:** Methodoleg

# Ffeithiau allweddol

| | |
|---|---|
| **152** | Nifer y timau troseddau ieuenctid (YOTs) yng Nghymru a Lloegr |
| **-84%** | Y newid yn y nifer o blant a oedd yn newydd-ddyfodiaid am y tro cyntaf[2] i'r system cyfiawnder troseddol yn y deng mlynedd rhwng Mawrth 2007 a Mawrth 2016[3] |
| **-86.3%** | Y newid yn y nifer o rybuddiadau, rhybuddiadau amodol, ceryddon a rhybuddion olaf a roddwyd i blant yn y deng mlynedd rhwng Mawrth 2007 a Mawrth 2016[4] |
| **Ddim yn hysbys[5]** | Y newid yn y nifer o ddatrysiadau cymunedol[6] a roddwyd i blant yn y deng mlynedd rhwng Mawrth 2007 a Mawrth 2016 |
| **Ddim yn hysbys** | Y gyfradd aildroseddu ar ôl 12 mis plant a oedd wedi derbyn datrysiad cymunedol rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015 |
| **30.7%** | Y gyfradd aildroseddu ar ôl 12 mis plant a oedd wedi derbyn rhybuddiad neu rybuddiad amodol rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015[7] |
| **51.3%** | Y gyfradd aildroseddu ar ôl 12 mis plant a oedd wedi derbyn dedfryd gymunedol neu o garchar rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015[7] |
| **80%** | Cyfran yr ardaloedd sy'n adrodd bod ganddynt broses gwneud penderfyniadau ar y cyd sy'n cynnwys yr heddlu a'r timau troseddau ieuenctid (YOT) ar gyfer rhai neu'r holl ddatrysiadau cymunedol neu rybuddiadau ieuenctid cyntaf[8] |
| **81%** | Cyfran yr ardaloedd sy'n adrodd bod y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi asesu rhai neu'r holl achosion datrysiad cymunedol neu rybuddiad ieuenctid i hysbysu penderfyniad y gwarediad[8] |

[2]Mae newydd-ddyfodiad yn blentyn sy'n derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol statudol (rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad amodol ieuenctid neu gyhuddiad) am y tro cyntaf.

[3] First time entrants to the Youth Justice System, *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2015-16*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017.

[4] Gateway to the Youth Justice System, blwyddyn yn gorffen Mawrth 2016, *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2015-16*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017.

[5] Nid yw naill ai nifer y datrysiadau cymunedol a gyflwynwyd neu'r gyfradd aildroseddu a'u dilynodd yn cael eu coladu'n genedlaethol ar hyn o bryd.

[6] Mae datrysiad cymunedol yn derm generig am y gwarediad tu allan i'r llys nad yw'n statudol a ddefnyddir mewn achosion lle nad yw'r canlyniad sy'n dilyn troseddu a gydnabyddir yn cynnwys cyhuddiad, rhybuddiad neu rybuddiad amodol

[7] Proven reoffending by young people, *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2015-16*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2017.

[8] HMI Probation survey of youth offending teams, Mai 2017, heb ei gyhoeddi.

# Gwarediadau y tu allan i'r llys wedi'u hesbonio

## Timau troseddau ieuenctid

Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs)[9] yn bartneriaethau statudol amlddisgyblaethol[10] sydd â'r nod i *atal* plant rhag troseddu. Wrth wneud hynny, eu nod yw delio ag anghenion y plentyn cyfan, nid yr anghenion hynny'n unig sydd wedi'u cysylltu'n fwyaf uniongyrchol ag ymddygiad troseddol.

Mae gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi'i reoli a'i ffurfio'n genedlaethol gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd, llawer ohono'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid. Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI) yn goruchwylio gwaith y timau troseddau ieuenctid (YOTs). Mae'n monitro'u perfformiad, yn cynhyrchu cyfarwyddyd ac yn darparu peth cyllid i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Yng Nghymru, mae gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru lawer o'r cyfrifoldebau hyn. Yn lleol, mae gwaith i atal troseddu gan blant yn cael ei oruchwylio gan fwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) o'r holl bartneriaid statudol[11]sy'n cyfrannu at waith y tîm troseddau ieuenctid (YOT), yn aml ynghyd â phartneriaid gwirfoddol neu bartneriaid eraill.

Mae timau troseddau ieuenctid yn goruchwylio plant 10-18 mlwydd oed sydd wedi cael eu dedfrydu gan lys. Mae'r niferoedd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.  Maent hefyd yn aml yn goruchwylio'r rhai hynny y deliwyd â nhw heb fynd i'r llys, wedi iddynt ddod at sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol. Mae cydbwysedd gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi newid, gyda chyfran fwy nawr mewn perthynas â'r achosion hyn heb fynd i'r llys, a adnabyddir fel gwarediadau tu allan i'r llys.

## Gwarediadau tu allan i'r llys

Mae delio â rhai achosion heb fynd â nhw i'r llys wedi bod yn ddull tymor hir o fewn y system cyfiawnder troseddol. Cyn 2012 roedd y gwarediadau tu allan i'r llys statudol a ddefnyddiwyd gyda phlant yn cynnwys ceryddon a rhybuddion olaf.

Mae'r fframwaith presennol wedi'i osod yn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol Deddfu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012. Mae dau warediad statudol tu allan i'r llys ar gyfer plant bellach - y rhybuddiad ieuenctid a'r rhybuddiad amodol ieuenctid. Mae opsiynau ar gyfer oedolion yn wahanol. Mae opsiwn anstatudol hefyd a gyfeirir ato'n gyffredinol fel datrysiad cymunedol; er y defnyddir llawer o dermau gwahanol am y rhain yn lleol. Mae'r term gwarediad tu allan i'r llys yn cynnwys y tri ohonynt.

Nid yw gwarediad tu allan i'r llys yn cynnwys treial neu ddedfryd mewn llys. Yn lle hynny, y nod yw dargyfeirio'r plentyn rhag cael ei gynnwys yn y system cyfiawnder troseddol yn y dyfodol, er lles gorau'r plentyn a chyfiawnder.Maent yn fwyaf addas ar gyfer plant nad ydynt yn troseddu'n rheolaidd ond wedi cyflawni trosedd isel ei lefel. Maent yn cael eu defnyddio'n anaml felly ar gyfer troseddau mwy difrifol neu gyda throseddwyr mynych.

**Mae datrysiad cymunedol (CR)** – yn ffordd arall o ddelio â throseddau llai difrifol sy'n caniatáu i'r heddlu ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ddelio â phlentyn sydd wedi cyflawni trosedd. Byddai fel arfer yn ceisio datrys y drosedd mewn modd anffurfiol sy'n dod â'r mater i ben i'r dioddefwr, lle nodwyd un, mewn modd amserol. Gallai gynnwys y troseddwr yn gwneud rhywbeth sy'n 'gwneud iawn am' y troseddu er boddhad y dioddefwr, a dylai ystyried eu barn.Gallai datrysiadau cymunedol (CRs) cychwynnol gael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan swyddog yr heddlu sy'n ymchwilio, heb fod y plentyn wedi'i arestio. Weithiau cyfeirir at hyn fel "Cyfiawnder adferol y stryd (Street RJ)." Gellir rhoi datrysiad cymunedol (CR) lle, ar ôl ystyried yr opsiynau sydd ar gael, mae'n fwy addas na rhybuddiad. Cofnodir derbyn datrysiad cymunedol (CR) yn systemau'r heddlu

---

[9] Defnyddir y term tîm troseddau ieuenctid (YOT) er mwyn symlrwydd drwy'r adroddiad hwn i gyfeirio at dimau troseddau ieuenctid, gan mai dyma'r teitl a ddefnyddir mewn deddfwriaeth.  Mewn ymarfer, maent yn cael eu hadnabod yn lleol gan sawl teitl. Gweler yr Eirfa i gael gwybodaeth bellach.

[10] *Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998* Adran 39.

[11] Y partneriaid statudol yw'r awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaethau prawf a iechyd.

lleol ond nid yw'n cael ei gofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC) ac nid yw'n ffurfio rhan o gofnod troseddol ffurfiol.

**Rhybuddiad ieuenctid (YC)** – Mae rhybuddiad ieuenctid yn rhybudd ffurfiol, a gyflwynir gan swyddog yr heddlu a'i dderbyn gan y plentyn, unwaith y bydd plentyn yn cyfaddef ei fod wedi troseddu, sy'n eu rhybuddio rhag aildroseddu ac am ganlyniadau posibl gwneud hynny. Mae'n cael ei ddefnyddio mewn achosion, o droseddu lefel gymharol isel fel arfer, lle nad yw er lles y cyhoedd i erlyn y plentyn sydd wedi troseddu. Nid oes amodau penodol yn gysylltiedig â rhybuddiad ieuenctid (YC). Fodd bynnag, bydd yn cael ei gofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC) ac yn ffurfio rhan o gofnod troseddol plentyn.

**Rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC)** – Mae rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC) yn debyg i rybuddiad cymunedol (YC), ond yn ogystal mae amodau penodol yn gysylltiedig y mae gofyn i'r plentyn lynu atynt, am gyfnod o hyd at dri mis. Os nad yw'r plentyn yn cydymffurfio â'r amodau hyn yna gall yr heddlu ddewis argymell erlyniad. Mae'n debygol o gael ei ddefnyddio lle nad yw erlyniad er lles y cyhoedd ond bod yr heddlu'n ystyried bod angen camau penodol i leihau'r tebygolrwydd o droseddu pellach, diogelu'r dioddefwr penodol, neu lle nad yw gwarediadau blaenorol tu allan i'r llys wedi bod yn effeithol.

**Pryd gellir ystyried gwarediad tu allan i'r llys?**Rhaid bodloni tri phrawf ymhob achos:

- bod trosedd wedi'i chyflawni
- bod troseddwr wedi'i nodi
- bod y troseddwr wedi derbyn cyfrifoldeb[12] am y drosedd.

Unwaith y mae'r holl brofion hyn wedi'u bodloni, gall yr heddlu ystyried gwarediad tu allan i'r llys yn hytrach na chyhuddo'r plentyn a mynd â nhw i'r llys.

Mae'r heddlu'n gyfrifol am warediadau tu allan i'r llys, ond mae'n rhaid iddynt ddweud wrth y tîm troseddau ieuenctid (YOT) lleol, lle rhoddwyd rhybuddiad, a phryd bynnag y maent yn ystyried rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC). Hysbysir y tîm troseddau ieuenctid (YOT) hefyd pan roddwyd datrysiad cymunedol (CR). Gall y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yna asesu'r plentyn a gall benderfynu cynnig cefnogaeth i'r plentyn, i helpu'r plentyn droi oddi wrth droseddu. Yn gynyddol mae'r timau troseddau ieuenctid (YOTs) hefyd yn cyfrannu, drwy banel neu fel arall, at y penderfyniad p'un a yw gwarediad tu allan i'r llys yn addas yn yr achos penodol. Trafodir pob un o'r agweddau hyn mewn manylder yn hwyrach yn yr adroddiad hwn.

Yn dilyn datrysiad cymunedol (CR) neu rybuddiad ieuenctid (YC), mae ymrwymiad y plentyn mewn unrhyw waith gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YT) yn wirfoddol. Yn dilyn rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC), mae eu hymrwymiad yn orfodol a gellir ei orfodi, gan gynnwys trwy gyhuddiadau am y drosedd wreiddiol. Gellir cyfeirio at ymrwymiad y plentyn mewn gweithrediadau yn y llys sy'n ymwneud â nhw yn y dyfodol.

Yn aml mae defnyddio datrysiad cymunedol (CR) yn cyd-fynd â chydnabyddiaeth a lofnodwyd ei fod wedi'i dderbyn, ac unrhyw amodau a allai fod yn gysylltiedig ag ef. Mae glynu at unrhyw amodau a gytunwyd wedi hynny fel rhan o ddatrysiad cymunedol (CR) yn wirfoddol.

### Gwaith arall gyda phlant

Mae sawl tîm troseddau ieuenctid (YOTs) hefyd yn gweithio gyda phlant nad ydynt wedi cyflawni trosedd, ond yn dangos tebygolrwydd cynyddol o wneud hynny. Mae'r graddau y mae gwaith o'r fath yn cael ei wneud gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs), neu mewn man arall o fewn Awdurdod Lleol, yn amrywio'n fawr. Nid oes terminoleg safonol i gynnwys yr amrywiaeth o waith cyn-droseddu, pwy bynnag sy'n ymgymryd ag ef. Yn lleol, gellir defnyddio termau megis help cynnar, dargyfeirio, atal a gwaith tu allan i'r llys yn gyfnewidadwy i gynnwys yr amrywiaeth eang o

[12] Trafodir y gwahaniaeth rhwng derbyn cyfrifoldeb am drosedd a chyfaddef trosedd mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

waith a wneir gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) ac adrannau gwasanaethau plant Awdurdod Lleol i atal canlyniadau niweidiol i blant.

Dylid sicrhau cysylltiadau strategol yn ogystal â gweithredol rhwng gwaith cyn-troseddu a gwarediad tu allan i'r llys, gydag amcan cyffredin, i ddelio ag ymyddygiad y plentyn cyn gynted â phosibl ar y lefel isaf briodol, ac i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn troseddu yn y dyfodol.

Mae'r arolygiad hwn yn cynnwys gwarediadau tu allan i'r llys yn unig: gwaith gyda phlant sydd wedi codi o weithgarwch gan yr heddlu, a lle mae'r tri amod ar gyfer gwarediad tu allan i'r llys wedi'u bodloni.

## Cofnodion troseddol

Nid yw derbyn datrysiad cymunedol yn arwain at gofnod troseddol ffurfiol.

Cofnodir manylion, fodd bynnag, yn systemau'r heddlu lleol a gellir eu datgelu fel y barno'r heddlu – er enghraifft, mewn ymateb i archwiliad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n gysylltiedig â chais am swydd yr ystyrir yr ymddygiad yn berthnasol. Darperir cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo gyda hyn.[13] Cofnodir manylion rhybuddiadau ieuenctid (YCs) a rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) hefyd ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC).

Nod gwarediadau tu allan i'r llys yw dargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol; ond oherwydd y potensial ar gyfer datgeliad, gallai fod ganddynt ganlyniadau yn y dyfodol er hynny.

---

[13] Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd i Brif Gwnstabliaid ar yr hyn i'w gynnwys mewn ymateb i archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar https://www.gov.uk/government/publications/statutory-disclosure-guidance

# Crynodeb gweithredol

## Arweinyddiaeth

Canfuom arweinyddiaeth glir ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys mewn partneriaethau lleol. **Cydnabuwyd yn gyffredinol bwysigrwydd cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a'u dyfodol, tra hefyd yn cydnabod yr effaith ar ddioddefwyr.**

Roedd gwaith tu allan i'r llys yn flaenoriaeth strategol yn yr holl ardaloedd yr ymwelom â nhw, ac yn cael ei arwain yn glir gan fwrdd rheoli'r timau troseddau ieuenctid (YOT). Roedd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs) yn bartner cyllid strategol pwysig mewn sawl ardal. Roedd cysylltiadau strategol a gweithredol da rhwng gwaith gwarediad tu allan i'r llys a gwaith ataliol a dargyfeiriol lleol arall. Roedd staff yn ymrwymedig, gwybodus ac wedi'u hyfforddi'n dda'n gyffredinol.

Roedd yr ymrwymiad i waith gwarediad tu allan i'r llys gan yr heddlu, yn strategol yn ogystal ag yn weithredol, yn dda bob amser ac weithiau'n creu argraff. Roedd staff gweithredol yr heddlu'n deall y disgwyliadau a oedd ganddynt yn glir ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys. Roedd gan bob llu systemau i atal defnyddio datrysiadau cymunedol yn ormodol a roddwyd gan yr heddlu heb gyfeirio at y tîm troseddau ieuenctid (YOT), er bod eu heffeithiolrwydd yn aneglur.

Mae'r llwyddiannau sy'n codi o waith tu allan i'r llys yn derbyn ychydig neu ddim cyhoeddusrwydd cenedlaethol neu leol, er y gallai sylw da gan y cyfryngau gynyddu hyder y dedfrydwr a'r cyhoedd.

## Darpariaeth

Roedd ansawdd gwaith ymyrraeth mewn gwarediadau tu allan i'r llys yn dda ac yn effeithiol.

Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau gwarediad tu allan i'r llys yn mynd y tu hwnt i ofynion isafswm y fframweithiau cenedlaethol statudol ac a argymhellir. Canfuom berthynas gadarnhaol rhwng yr heddlu a'r timau troseddau ieuenctid (YOTs) gyda'r ddau wedi ymrwymo i ddargyfeirio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol.

Roeddem yn falch iawn bod yr heddlu a'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ar y cyd, yn gwneud penderfyniad gwarediad tu allan i'r llys, ac yn aml mewn panel gwneud penderfyniadau. Ar rai paneli, roedd gwirfoddolwyr cymunedol yn rhoi gradd o her annibynnol, craffu allanol a thawelu meddwl y cyhoedd. Roedd paneli a arsylwyd gennym yn ystyried eu rolau'n ddifrifol iawn.**Fodd bynnag, nid oedd llais y plentyn yn aml yn cael ei glywed yn effeithol yn y broses gwneud penderfyniadau terfynol.**

Roedd y prosesau a oedd yn arwain at benderfyniadau'n aneglur yn aml. Nid oedd asesu a chynllunio bob amser o'r ansawdd yr oedd ei angen ac nid oeddent yn adlewyrchu llais y plentyn yn ddigonol bob amser. Nid oedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn defnyddio offer asesu addas bob amser. Canfu'r mwyafrif fod y cyfarwyddyd ar fframwaith asesu a chynllunio Asset Plus a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (BCI) yn gymysglyd ac yn ddiwerth. Roedd y prosesau asesu a chynllunio weithiau'n rhoi sylw annigonol i'r risg o niwed i ddioddefwyr ac eraill neu ddiogelwch a lles y plentyn, yn rhannol oherwydd diffygion yn yr offer asesu a ddefnyddiwyd.

Tra bod y broses yn aml yn aneglur, canfuom fod y timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn gyffredinol yn gwneud y pethau iawn gyda'r plant unwaith eu bod yn cael y cyfle i gychwyn gwaith gyda nhw. Canfuwyd arwyddion amlwg o gynnydd mewn sawl achos a arolygwyd gennym. Roedd bwlch amser sylweddol yn aml rhwng dyddiad y drosedd a'r cyfeirio at y tîm troseddau ieuenctid (YOT), pan i fod yn fwyaf effeithiol, dylai gwarediadau tu allan i'r llys ddilyn cyflawni'r drosedd yn agos.

**Roedd ymgysylltiad pobl ifanc mewn ymyriadau'n amrywio'n sylweddol.** Roedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) a oedd yn canolbwyntio ar gwrdd â phlant a'u hasesu cyn y penderfyniad gwarediad yn cyflawni ymgysylltiad llawer mwy, gan eu bod wedi cael cyfle'n gynnar i gychwyn gwaith ysgogol gyda nhw. Roedd y plant a oedd ynghlwm, heb eithriad, yn gadarnhaol yn eu clod o waith y tîm troseddau ieuenctid (YOT). Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth roedd eu plant wedi'i derbyn, a'r gwahaniaeth cadarnhaol roedd gwaith gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi'i wneud. Roedd dioddefwyr a oedd wedi ymgysylltu'r un mor gadarnhaol, ond nid oedd pawb yn cymryd rhan. Canfuom fod y timau troseddau ieuenctid (YOTs) a oedd yn fwy ymrwymedig i gynnwys y dioddefwr yn well hefyd i gyflawni eu hymrwymiad.

Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o waith adferol; a gyflawnwyd er yr amserlenni heriol sy'n ymwneud â gwaith tu allan i'r llys.

Mae gan yr heddlu'r grym, pan roddir rhybuddiad ieuenctid (YC) neu rybuddiad amodol ieuenctid (YCC) i blentyn, i gael olion bysedd a data biometrig. Argymhellir defnyddio'r grym hwn yn gryf mewn cyfarwyddyd cenedlaethol. Canfuom, fodd bynnag, fod anghysonderau mewn ymarfer, gyda rhai'n peidio â defnyddio'r grym hwn.

### Effeithiolrwydd

Ystyrir gwarediadau tu allan i'r llys fel ffordd effeithiol o atal plant rhag bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol, ond nid oes tystiolaeth glir ar gael i ddangos yn gyffredinol pa mor effeithiol y maent i gyflawni hyn ac i ddargyfeirio plant rhag troseddu, ac i gadarnhau ai hyn yn wir yw'r achos. Nid oes unrhyw fonitro cenedlaethol systematig o'r nifer o ddatrysiadau cymunedol a ddefnyddir, neu sawl plentyn sy'n mynd ymlaen i dderbyn gwarediadau neu euogfarnau pellach yn dilyn derbyn datrysiad cymunedol. Mae datrysiadau cymunedol (CRs) yn gydran allweddol o waith tu allan i'r llys. Yn ein harolygiad, roeddent yn ffurfio 39% o sampl achosion yr arolygiad a oedd wedi'u cyfeirio at y tîm troseddau ieuenctid (YOT) ar gyfer eu hasesu neu gyngor. Roedd hyn yn adlewyrchu cydbwysedd llwyth gwaith tu allan i'r llys yn y timau troseddau ieuenctid hynny (YOTs), sy'n amrywio'n fawr rhwng ardaloedd. Nid oedd llawer o fonitro cyson o ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith gwarediad tu allan i'r llys yn lleol.

Mae tystiolaeth argyhoeddiadol fyd eang y bydd y rhan fwyaf o blant sy'n troseddu'n peidio â throseddu erbyn eu bod yn eu hugeiniau cynnar.[14]Mae data tymor hir ar gyfer newydd-ddyfodiaid[15] yn awgrymu bod cwmpas y gwaith a wneir gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) i ddargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol yn effeithiol ar y cyfan, gan fod y nifer wedi cwympo'n gyson ers sawl blwyddyn, cyn gweithredu'r fframwaith gwarediad tu allan i'r llys presennol yn ogystal ag yn ystod y dull blaenorol. Mae tystiolaeth ddiweddar gadarn hefyd ynghylch pwysigrwydd pobl sydd wedi troseddu'n datblygu barn o'u hunain nad ydynt yn troseddu, er mwyn iddynt beidio â throseddu.[16] Gallwn, felly, ragdybio y bydd y canolbwynt ar y canlyniadau iawn ar gyfer y plentyn yn lleihau ei debygolrwydd o aildroseddu.

Roedd ein dyfarniadau, o'r achosion a arolygwyd gennym, yn nodi bod cyfraddau aildroseddu tymor byr yn dilyn datrysiad cymunedol a oedd yn cynnwys ymyrraeth gan dîm troseddau ieuenctid (YOT) yn is na'r rhai hynny sy'n dilyn rhybuddiad neu rybuddiad amodol**-** ac roedd y ddau'n is nag aildroseddu'n dilyn euogfarn.

### Defnydd a goblygiadau

---

[14] Er enghraifft: Moffitt (1993) a Sampson a Laub (1993)

[15]Newydd-ddyfodiad yw plentyn sydd wedi derbyn eu rhybuddiad cyntaf, rhybuddiad amodol neu rybuddiad.

[16] Er enghraifft: Maruna (2001)

Canfuom nad oedd llawer o blant ac ymarferwyr yn ymwybodol y gellid datgelu manylion unrhyw warediad tu allan i'r llys - yn arbennig datrysiadau cymunedol (CRs), nad ydynt yn cael eu cofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC) -ar archwiliad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o dan amodau penodol. Rydym yn cydnabod bod rhesymau da pam bod angen cadw gwybodaeth i gefnogi swyddogaethau priodol yr heddlu a'r gwasanaethau erlyn. Nid yw'r sefyllfa bresennol lle gall plant fod yn aneglur ynghylch p'un ai datgelu derbyn gwarediad neu beidio, fodd bynnag, yn gyson â'r amcan o ddargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol, a sicrhau bod ganddynt y cyfle gorau ar gyfer canlyniadau cadarnhaol yn eu bywydau.

## Argymhellion

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:**

- Gynnwys datrysiadau cymunedol mewn ystadegau aildroseddu system cyfiawnder troseddol, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd i leihau troseddu a gwella canlyniadau i blant.

**Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:**

- Sicrhau bod cyfarwyddyd ar ddefnyddio Asset Plus neu fframweithiau asesu eraill yn cwrdd ag anghenion ardaloedd lleol wrth geisio ymgymryd â gwaith gwarediad tu allan i'r llys.

**Dylai byrddau rheoli timau troseddau ieuenctid:**

- Sicrhau y gwerthusir gwaith gwarediad tu allan i'r llys, ei fod o ansawdd da ac yn effeithiol.

**Dylai timau troseddau ieuenctid a phrif gwnstabliaid:**

- Sicrhau bod gofynion rhybuddiadau amodol ieuenctid yn ystyrlon i blant, ac yn disgrifio'r canlyniadau dymunol a sut y cyflawnir y rhain.

- Sicrhau bod gan bob dioddefwr gyfle effeithiol ac ar sail gwybodaeth i gael lleisio eu barn, ac i dderbyn ymyrraeth adferol briodol.

- Sicrhau bod plant yn deall goblygiadau derbyn gwarediad tu allan i'r llys cyn y gofynnir iddynt ei dderbyn.

**Dylai timau troseddau ieuenctid:**

- Sicrhau bod asesu a chynllunio o ansawdd da, ac yn ystyried barn y plentyn ynghylch yr hyn a allai eu helpu i osgoi troseddu.

- Sicrhau bod gwneud penderfyniadau'n cael ei hysbysu gan asesiad y plentyn.
- Rhoi sylw penodol i ddioddefwyr a diogelu'r cyhoedd yn yr asesiad, cynllunio a chyflwyno gwaith gwarediad tu allan i'r llys.

**Dylai prif gwnstabliaid:**

- Sicrhau bod atgyfeiriadau i dimau troseddau ieuenctid (YOTs) yn ddigon amserol i gwrdd ag anghenion dioddefwyr i gael cyfiawnder yn gyflym a chyflawni amcanion gwarediadau tu allan i'r llys; a gwneud y tîim troseddau ieuenctid (YOT) yn ymwybodol o bob datrysiad cymunedol a roddir gan yr heddlu.

- Sicrhau bod ganddynt bolisïau clir a ddefnyddir yn gyson ar gyfer casglu olion bysedd a gwybodaeth fiometrig arall mewn achosion rhybuddiad ieuenctid a rhybuddiad amodol.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pam y thematig hwn?

Mae gwarediadau tu allan i'r llys yn gyfran uchel yn gynyddol o waith timau troseddau ieuenctid (YOTs). Mae amcangyfrifon gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) ar gyfer cyfran gwarediadau tu allan i'r llys yn eu mewnbwn blynyddol o blant a phobl ifanc yn amrywio o tua 30% i 80%, gyda thua 50% yn cael eu dyfynnu'n nodweddiadol. Mae'r gostyngiad tymor hir mewn newydd-ddyfodiaid sy'n blant i'r system cyfiawnder troseddol, y gostyngiad mewn achosion wedi'r llys a gynhelir gan sawl tîm troseddau ieuenctid (YOTs) a data aildroseddu ar gyfer plant sydd wedi derbyn rhybuddiad ieuenctid (YC) neu rybuddiad amodol ieuenctid (YCC) yn dangos bod y gwaith hwn yn bwysig i gyflawni prif amcan y system cyfiawnder troseddol - atal troseddu gan blant.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'r llys gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cael ei reoli gan gyfarwyddyd deddfwriaethol, statudol sylweddol a chyfarwyddyd arall. Mae llawer llai o gyfarwyddyd yn achos gwarediadau tu allan i'r llys. Ar lawer ystyr mae hyn yn briodol, gan fod eu trefniant a'u cyflwyniad yn cael eu penderfynu'n lleol i fod yn atebol i batrymau a blaenoriaethau troseddu lleol. Mae hyn yn golygu, fodd bynnag, nad oes llawer o gyfarwyddyd am egwyddorion arfer da ar gyfer y gwaith hwn, dealltwriaeth brin o ansawdd y gwaith, ac ymwybyddiaeth brin o natur, amrywiaeth ac ansawdd darpariaeth leol.

Oherwydd pwysigrwydd y gwaith hwn, bydd Arolygiaeth Prawf EM yn cynnwys gwarediadau tu allan i'r llys yn ei rhaglen newydd o arolygiadau perfformiad gwaith troseddau ieuenctid, gan gychwyn eleni. Mae'r arolygiad thematig hwn yn arolygiad o sylwedd yn ogystal â cham pwysig i gyflwyno neges glir i'r sector cyfiawnder ieuenctid ynghylch yr hyn rydym yn ei ystyried i fod yn arfer digonol.

## 1.2. Cefndir

Mae gwaith i ddargyfeirio plant rhag troseddu wedi bod yn rhan o waith y timau troseddau ieuenctid (YOTs) ers eu cychwyn. Roedd gofyn iddynt gyfrannu at waith i atal troseddu cyn i blant dderbyn cosb cyfiawnder troseddol statudol. Roedd hyn yn aml yn cael ei gyflwyno trwy raglenni cynnwys ieuenctid (YIPs) neu raglenni cynnwys a chefnogi ieuenctid (YISPs). Roedd y rhaglenni hyn yn targedu ardaloedd â phroblem neu unigolion roedd eu hymddygiad yn dangos y gallent fynd ymlaen i droseddu. Roedd byrddau rheoli timau troseddau ieuenctid (YOT) yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith hwn. Roedd y rhaglen arolygu gychwynnol o waith troseddau ieuenctid yn rhoi sylw i effeithiolrwydd y gwaith hwn.

Dros amser, bu hyblygrwydd mwy gan awdurdodau lleol i integreiddio'r gwaith hwn gyda gwaith ataliol neu ddargyfeiriol gwasanaethau plant ehangach, yn ogystal â chyfrifoldeb am gyfran gynyddol o'r cyllid. Roedd hyn yn arwain at amrywiaeth o ddulliau i atal troseddu. I'w nodi roedd y system 'Bureau' a ddatblygwyd yn Ne Cymru (gweler yr Eirfa i gael esboniad), a gododd yn bennaf o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Datblygwyd amrywiaeth o ddulliau eraill hefyd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y blaenoriaethau ar gyfer arolygu gwaith troseddau ieuenctid yn canolbwyntio ar wella ansawdd y gwaith lle roedd y plentyn wedi'i euogfarnu a'i ddedfrydu. Ystyriwyd gwaith gwarediad tu allan i'r llys gennym mewn dau arolygiad thematig, yn 2010 a 2011.[17]

Cyn Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO), cynyddodd sancsiynau cyfiawnder ieuenctid o geryddon trwyddo i rybuddion olaf ac ymlaen i ddedfrydau llys. Tynnodd y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) y codiad awtomatig

[17] Joint Criminal Justice Inspectorates, *A Joint Inspection of Youth Crime Prevention*, Medi 2010 a Joint Criminal Justice Inspectorates, *Exercising Discretion: The Gateway to Justice*, Mehefin 2011.

hwn, a oedd yn golygu y gellid defnyddio gwarediadau tu allan i'r llys pryd bynnag y bônt yn briodol, heb ystyried sancsiynau blaenorol. Y tu hwnt i'r sancsiynau statudol, roedd cyfarwyddyd a oedd yn cefnogi'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) yn cynnwys fframwaith heb fod yn statudol. Roedd tystiolaeth anecdotaidd bod gwaith gwarediad tu allan i'r llys yn lleol wedi'i ddatblygu'n sylweddol yn aml y tu hwnt i ofynion lleiafswm fframwaith y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO), ac felly roedd dealltwriaeth gasgliadol o'r hyn a oedd yn dderbyniol neu arfer da wedi'u datblygu'n ogystal. Ni chafwyd gwerthusiad cenedlaethol o'r gwaith hwn ers y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) a datblygiad o egwyddorion cyflwyno craidd sy'n adlewyrchu natur bresennol y gwaith, i'w ddefnyddio heb ystyried y model cyflwyno lleol unigol. Mae gweithgarwch arolygu o sylwedd diweddar wedi cynnwys cyfeirio at drefniadau lleol mewn rhai arolygon llawn ar y cyd o waith troseddau ieuenctid.

## 1.3. Nodau ac amcanion

Nod cyntaf yr arolygiad hwn oedd datblygu dealltwriaeth genedlaethol o amrywiaeth a natur cynlluniau presennol. Yna, ystyried mewn dewis cynrychiadol o ardaloedd lleol:

- pa mor dda roedd y gwaith yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys effeithiolrwydd cefnogi trefniadau rheoli a llywodraethu
- ei effeithiolrwydd i gwrdd ag amcanion y system cyfiawnder ieuenctid
- y themâu sy'n tanategu gwaith o ansawdd da.

Y nod oedd nodi arfer da, gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau lle roedd eu hangen yn benodol a datblygu set o safonau ar gyfer cyflwyno gwaith gwarediad tu allan i'r llys i'w defnyddio gydag arolygu perfformiad yn y dyfodol o waith troseddau ieuenctid.

Ar gyfer yr arolygiad hwn, roedd y term 'gwarediad tu allan i'r llys' yn cynnwys achosion lle roedd plentyn wedi'i brosesu gan yr heddlu, yn cydnabod eu cyfrifoldeb am ymddygiad oedd yn ymwneud â throseddu penodol, ond nid oeddent wedi'u cyhuddo, eu rhoi ar fechnïaeth neu eu rhyddhau o dan ymchwiliad, neu fod camau gweithredu ffurfiol wedi'u cymryd yn eu herbyn. Roedd y syniad bod 'trosedd wedi'i chyflawni, y troseddwr wedi'i nodi a'u bod wedi cydnabod cyfrifoldeb' yn profi i fod yn ofyniad priodol, a bydd yn cael ei ddefnyddio mewn arolygiad perfformiad yn y dyfodol.

Ar gyfer pwrpasau rheoli, mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn aml wedi'u lleoli o fewn gwasanaethau plant neu, yng Nghymru, adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Dylid cael perthynas agos rhwng y tîm troseddau ieuenctid (YOT) a gwasanaethau plant. Gall rhai timau troseddau ieuenctid (YOTs) hefyd fod yn cael eu cynnwys mewn achosion sydd wedi codi trwy atgyfeiriadau awdurdod lleol eraill, yn hytrach na llwybr cyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith hwn, hyd yn oed pan fydd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn ymgymryd ag ef yn lleol, yn cwympo o fewn gorchwyl rhaglenni arolygiad gwasanaethau plant eraill. Mae achosion o'r fath yn berthnasol yn unig i'r arolygiad hwn os byddent hefyd wedi codi drwy lwybr cyfiawnder troseddol.

## 1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Dangosyddion allweddol o waith gwarediad da tu allan i'r llys | Crynodeb o'r dangosyddion allweddol o waith gwarediad da tu allan i'r llys. |
| 3. Llywodraethu ac arweinyddiaeth | Cyfraniad trefniadau llywodraethu a rheoli at waith gwarediad tu allan i'r llys. |
| 4. Cyfraniad yr heddlu at waith gwarediad tu allan i'r llys gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) | Ansawdd cyfathrebu a gweithio ar y cyd rhwng yr heddlu a thimau troseddau ieuenctid (YOTs) mewn gwaith gwarediad tu allan i'r llys. |

| | |
|---|---|
| 5. Prosesau gwneud penderfyniad | Cynlluniau'r gwarediad tu allan i'r llys yn y saith ardal gwaith maes arolygu, ac asesiad o'r systemau gwneud penderfyniadau. |
| 6. Arfer rheoli achosion | Canfyddiadau o arolygiad rheoli achosion a gwaith cysylltiedig mewn timau troseddau ieuenctid (YOTs) |
| 7. Darpariaeth gwarediad tu allan i'r llys yng Nghymru a Lloegr | Canfyddiadau o arolwg gan Arolygiaeth Prawf EM am yr amrywiaeth o ddarpariaeth gwarediad tu allan i'r llys mewn timau troseddau ieuenctid (YOTs) yng Nghymru a Lloegr. |

# 2. Dangosyddion allweddol o waith gwarediad da tu allan i'r llys

Amcan pwysig o'r arolygiad hwn oedd nodi themâu arfer da; hysbysu rhaglenni arolygiad yn y dyfodol a rhoi cyfarwyddyd i ardaloedd lleol ynghylch blaenoriaethau i ddatblygu'r gwaith hwn. Felly, cyn disgrifio ein canfyddiadau mewn manylder, rydym yn crynhoi'r prif themâu sy'n nodi gwaith cadarnhaol, a nodwyd gennym. Rydym yn annog timau troseddau ieuenctid a'u byrddau rheoli, i werthuso pa mor dda roeddent wedi cwrdd â'r dangosyddion hyn, ac i ddatblygu cynlluniau gwella mewn ymateb i hynny.

## 2.1 Dangosyddion o waith gwarediad da tu allan i'r llys

- Ymrwymiad gan yr heddlu lleol i ddelio â phlant ar y lefel isaf briodol, ac i'w dargyfeirio rhag eu cynnwys yn ffurfiol yn y system cyfiawnder troseddol ar y cyfle cynharaf priodol.
- Perthynas strategol a gweithredol dda, a gweithio mewn partneriaeth, rhwng yr heddlu a'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).
- Atgyfeiriadau amserol gan yr heddlu ar gyfer gwaith gwarediad tu allan i'r llys, a gwneud penderfyniadau amserol.
- Ymrwymiad i waith dargyfeiriol ac ataliol gan bartneriaeth yr awdurdod lleol a thimau troseddau ieuenctid (YOT), gan gynnwys arweinyddiaeth o fewn bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).
- Cysylltiadau strategol a gweithredol clir rhwng gwaith gwarediad tu allan i'r llys a gwaith dargyfeiriol ac ataliol lleol arall (cyfiawnder heb fod yn droseddol) gyda phlant.
- Defnyddio gwaith gwarediad tu allan i'r llys y tu hwnt i'r gofynion isafswm statudol.
- Sicrhau bod gwasanaethau gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT) a'i bartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau addysg a iechyd, ar gael yn llawn i achosion gwarediad tu allan i'r llys yn ogystal ag achosion wedi'r llys.
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd, ar gyfer popeth ond am ddatrysiadau cymunedol a arweinir gan yr heddlu, sy'n ystyried amgylchiadau'r drosedd yn ogystal â dymuniadau'r dioddefwr, ac yn rhoi blaenoriaeth i'r hyn sydd fwyaf tebygol o achosi'r plentyn i beidio â throseddu.
- Mae'r plentyn, a'u rhiant/gofalwr wedi ymgysylltu â'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) o flaen penderfyniad y gwarediad, i'w hysgogi, deall eu persbectif a chynyddu'r tebygolrwydd o ymgysylltu cadarnhaol â nhw.
- Mae asesu a chynllunio o ansawdd da. Maent yn ymgysylltu'n llawn ag ac yn gwrando ar lais

y plentyn, ac yn amserol a chymesur i egwyddorion gwarediadau tu allan i'r llys.

- Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cyflawni cyswllt â chyfradd uchel o ddioddefwyr, yn cynnig cyfleoedd cyfiawnder adferol realistig, ac yn sicrhau y gwrandewir ar lais y dioddefwr wrth wneud penderfyniadau.
- Mae cynllunio a chyflwyno'n canolbwyntio ar wasanaethau a gwaith ymyrraeth sy'n fwyaf tebygol o arwain at ymatal yn yr achos unigol, yn hytrach na chanolbwyntio'n awtomatig ar ffactorau troseddogenig.
- Mae ymgysylltu'n digwydd gyda'r teulu cyfan, fel y bo'n briodol, ac yn cydnabod pwysigrwydd rhieni/gofalwyr i gefnogi ymatal yn y dyfodol.
- Rhoddir sylw i amrywiaeth a ffactorau anghyfartaledd yn gynnar.
- Rhoddir sylw penodol i ddiogelu'r plentyn ac eraill rhag niwed.
- Mae plant wedi'u cysylltu â gwasanaethau eraill fel y bo'n briodol, gan gynnwys trwy gynllunio ymadael da.
- Mae trefniadau craffu'n cydnabod y gwahaniaethau rhwng gwaith oedolion a phlant yn llawn.
- Mae rheolwyr a byrddau rheoli'n deall pa mor dda y mae dargyfeirio tu allan i'r llys yn gweithio, a pha mor dda y mae'n cwrdd ag anghenion lleol. Maent yn sicrhau ei ansawdd, ac yn datblygu a chyflwyno cynlluniau gwella lle y bo angen.

# 3 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r bennod hon yn edrych ar ansawdd trefniadau strategol a gweithredol, yn ogystal â gwaith i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd gwarediadau tu allan i'r llys.

## 3.1 Arweinyddiaeth a phartneriaethau strategol

Roedd y sylw a roddwyd i waith gwarediad tu allan i'r llys mewn trefniadau rheoli strategol lleol yn dda yn gyson. Roedd trefniadau partneriaeth wedi'u sefydlu'n dda ar lefelau strategol yn ogystal â gweithredol. Roedd gan waith gwarediad tu allan i'r llys gysylltiadau strategol a gweithredol da â help cynnar lleol, trefniadau atal neu ddargyfeiriol gyda phlant mewn risg o ganlyniadau gwael.

Roedd arweinwyr hŷn y cwrddom â nhw, heb eithriad, yn ystyried ei bod yn iawn dargyfeirio plant o ymwneud ffurfiol yn y system cyfiawnder troseddol lle bynnag roedd hynny'n bosibl ac yn briodol. Dywedasant y dylai'r canolbwynt fod ar gyflawni'r canlyniad iawn i'r plentyn, gan mai hynny hefyd oedd yn fwyaf tebygol o beri iddynt fod yn llai tebygol o droseddu.

**Enghraifft o arfer da - integreiddio gyda gwaith ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Roedd Jack yn rhan o grŵp a oedd yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd ymyrraeth gyda'r grŵp yn flaenoriaeth i bartneriaid lleol, ond roedd wedi bod yn anodd ymgysylltu â nhw. Derbyniodd Jack ddatrysiad cymunedol am fod yn ddilornus tuag at weithiwr ieuenctid. Roedd ei ddatrysiad cymunedol yn rhoi cyswllt i mewn i'r grŵp, gan fod ei fanylion bellach gan y tîm troseddau ieuenctid ac roedd yn arweinydd yn y grŵp. Roedd y datrysiad cymunedol yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i ymgysylltu â Jack gyda gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT), a'i gael i ysgogi gweddill y grŵp i wneud hynny. Roedd hyn yn llwyddiannus. Datblygwyd pecyn saith sesiwn o ymyriadau cynhwysfawr a'i gyflwyno i'r grŵp, wedi'i lunio'n benodol i fynd i'r afael â'u problemau. Daeth y grŵp mor ymrwymedig i weithio gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) fel os nad oedd un aelod yn bresennol, byddai'r lleill yn chwilio amdanynt ac yn sicrhau eu bod yn ymuno. Nid yw Jack wedi bod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol ers hynny. Adroddodd yr heddlu bod "y grŵp cyfan wedi mynd oddi ar ein radar."

Roedd pob bwrdd rheoli tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn cymryd yr awenau'n lleol mewn gwaith goruchwylio gwarediad tu allan i'r llys, gan gynnwys archwilio data ar newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol, ac yn rhoi sylw digonol i'r gwaith hwn o fewn eu trefniadau cynllunio.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng gwaith wedi'r llys a thu allan i'r llys mewn ymrwymiad partneriaid. Yn Swydd Durham, er enghraifft, canfuom ymrwymiad da gan bartneriaid ar bob lefel i weithio gyda'i gilydd i leihau'r tebygolrwydd o blant yn mynd yn rhan neu'n parhau o fewn y system cyfiawnder ieuenctid.

Mae perthynas rhwng yr heddlu a thimau troseddau ieuenctid (YOTs) yn hanfodol i waith tu allan i'r llys. Canfuom fod y rhain yn dda'n gyson. Dywedodd un tîm troseddau ieuenctid (YOT) fod yr angen i adeiladu a chadw perthynas waith gadarnhaol gyda'r heddlu ar gyfer gwaith tu allan i'r llys wedi arwain at well cydweithio gyda'r heddlu'n gyffredinol.

Roedd cynrychiolwyr hŷn yr heddlu ar bob bwrdd rheoli tîm troseddau ieuenctid (YOT), gyda'r awdurdod priodol i ddylanwadu ar bolisi yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer cyfiawnder ieuenctid. Gwelsom hefyd ymrwymiad i gyfiawnder ieuenctid a arweinwyd gan brif swyddogion ymhob llu'r heddlu - roedd hyn yn treiddio trwy eu sefydliadau, fel a dystiwyd yn ystod ein cyfweliadau gyda swyddogion yr heddlu.

Roedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cydnabod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs) yn gynyddol fel partner strategol a chyllid pwysig ar gyfer gwaith gwarediad tu allan i'r llys. Roedd yr holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs), neu'u cynrychiolwyr, y siaradom â nhw'n cydnabod pa mor bwysig oedd gwaith gwarediad tu allan i'r llys i ac yn cyfrannu at eu cynlluniau heddlu a throsedd.

Mae llwyddiant gwarediadau tu allan i'r llys yn lleol ac yn genedlaethol yn dangos effeithiolrwydd y system cyfiawnder ieuenctid mewn cyflawni ei hamcan i atal troseddu. Ni ddaethom o hyd i lawer o dystiolaeth, fodd bynnag, ei fod yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i adeiladu dealltwriaeth gyhoeddus ehangach o a hyder yn y gwaith hwn. Roedd hwn yn gyfle wedi'i golli. Roedd rhai Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCCs) yn cydnabod ei fod yn faes lle y gallent wneud cyfraniad cadarnhaol, trwy eu gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd â fforymau cyhoeddus.

## *3.2 Rheoli gweithredol*

Canfuom fod staff oedd yn cyflwyno gwarediadau tu allan i'r llys yn ymrwymedig, yn wybodus ac wedi'u hyfforddi'n dda. Roedd hyn yn gymwys p'un ai a oeddent yn ymrwymedig yn unig i waith tu allan i'r llys neu â llwyth gwaith cyn ac wedi'r llys generig. Lle roedd gan staff lwyth gwaith generig, fodd bynnag, a oedd yn aml yn arwain at densiynau mewn cydbwyso'r angen am waith amserol tu allan i'r llys yn erbyn y blaenoriaethau o ddelio â materion uchel eu risg mewn achosion wedi'r llys.

Roedd gan bob ardal yr heddlu gyfarwyddyd oedd ar gael yn rhwydd ynghylch gwarediadau tu allan i'r llys ar eu safleoedd mewnrwyd, a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi a briffio i staff y rheng flaen.

Roedd rheolwyr achosion yn siarad yn gadarnhaol am sgiliau eu rheolwyr atebol uniongyrchol, gan eu disgrifio'n aml fel "cefnogol" a "gwybodus".

Rodd gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) amrywiaeth o ymyriadau i gwrdd ag anghenion bron yr holl achosion a arolygwyd gennym. Roedd, fodd bynnag, yn aneglur yn aml os bu gwaith penodol i sicrhau bod ymyriadau'n cwrdd ag anghenion lleol ac yn cadw i fyny â phatrymau troseddu lleol.

Roedd yr angen i gyflawni ymrwymiad mwy gan ddioddefwyr yn y gwaith hwn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol. Tra bod rhai meysydd yn effeithiol wrth wneud cysylltiad â dioddefwyr, yn gyffredinol nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i wella hyn. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi bob amser i fonitro boddhad dioddefwyr ychwaith, er mwyn gwella gwasanaethau. Yn yr un modd, canfuom dystiolaeth gyfyngedig yn unig bod barn plant neu riant/gofalwr yn cael eu monitro i helpu i wella gwasanaethau.

Roedd rhai timau troseddau ieuenctid (YOTs) eisiau ehangu'r amrywiaeth o achosion tu allan i'r llys roeddent yn cyfrannu atynt, ond roeddent yn pryderu nad oedd ganddynt adnoddau digonol. Roedd hyn yn cael ei wneud yn waeth gan effaith y broses asesu Asset Plus. Roedd eraill yn pryderu bod y gofynion presennol, fel yr oeddent yn eu deall, yn ei gwneud yn anodd rheoli eu llwyth gwaith presennol cystal ag y byddent yn dymuno.

## *3.3 Sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd*

Roedd sylw i effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith gwarediad tu allan i'r llys ar lefel strategol weithiau'n gyfyngedig i archwilio dangosydd cenedlaethol, mewnbwn neu ddata demograffig. Rhagdybiwyd weithiau y byddai gostyngiad mewn newydd-ddyfodiaid a dedfrydau llys yn nodi llwyddiant gwaith gwarediad tu allan i'r llys. Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn wir, gan y gall sawl ffactor arall hefyd ddylanwadu ar y data hynny. Nid yw dibynnu ar y dangosyddion cenedlaethol hyn a data lefel uchel eraill, felly, ar eu pen eu hun yn dilysu effeithiolrwydd gwaith lleol, neu'n sicrhau y gellir ei gadw neu ei wella lle y bo angen. I gyflawni'r rhain mae angen gwerthuso'r gwaith a deall y ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar droseddu. Ni roddwyd sylw penodol chwaith i effeithiolrwydd datrysiadau cymunedol a roddwyd yn uniongyrchol gan yr heddlu.

Roedd rhai enghreifftiau cadarnhaol o ddatblygu tystiolaeth canlyniad lleol, fodd bynnag. Roedd Southampton wedi nodi bod y gyfradd aildroseddu yn dilyn datrysiad cymunedol gydag ymyriadau, yn sylweddol llai nag ar gyfer gwarediadau cyfiawnder troseddol eraill. Adroddodd Swydd Durham fod y gyfradd aildroseddu yno'n dilyn datrysiad cymunedol lle roedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn cymryd rhan (a adnabuwyd yn lleol fel gwarediad cyn rhybuddiad) yn arbennig o isel yn 16%.

**Enghreifftiau o arfer da - defnyddio gwerthusiad allanol**

Comisiynodd Surrey werthusiad allanol o'i ymyrraeth adferol ieuenctid, ac roedd wedi'i adnewyddu yn 2017. Nodwyd llwyddiant cyffredinol y cynllun yn Surrey gan niferoedd bach yn gyson o newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuenctid, wedi'u cyfuno â niferoedd gostyngol yn rheolaidd o blant a oedd yn derbyn unrhyw warediad cysylltiedig â chyfiawnder troseddol (gan gynnwys dedfrydau'r llys yn ogystal â gwarediadau tu allan i'r llys). Mae'r gwerthusiadau, fodd bynnag, wedi helpu Surrey i ddeall lle mae angen adolygu a gwella'i gynllun ymhellach, a lle y bo'n llai effeithiol; cynnal a chadw'i lwyddiant.

Roedd Swydd Northampton wedi gweithio'n ddiweddar gyda phrifysgol leol i werthuso'i gwaith, gyda'r bwriad o ehangu'i dalgylch. Roedd hefyd wedi gweithio'n flaenorol gyda'r brifysgol a'i gwasanaethau plant lleol i baru data troseddu â gwybodaeth arall, ac o ganlyniad ddangos y ffactorau risg a oedd yn gymwys yn Swydd Northampton yn benodol . Fe'i defnyddiwyd i hysbysu datblygiad model gwarediadau tu allan i'r llys Swydd Northampton.

### Dysgu o achosion lle mae plant wedi aildroseddu

Roeddem yn disgwyl dod o hyd i brosesau arferol i adolygu a dysgu o achosion gwarediadau tu allan i'r llys lle roedd y plentyn wedi mynd ymlaen i aildroseddu, i gynorthwyo timau troseddau ieuenctid (YOTs) i ddysgu gwersi a gwella gwasanaethau. Ni chanfuom lawer o dystiolaeth o hyn.

### Goruchwylio gan reolwyr atebol

Canfuom ethos yn aml o geisio darparu lefel uchel o gefnogaeth i'r plentyn a'u teulu. Ni ddylai hynny, fodd bynnag, fod ar draul rhoi sylw penodol i risg o niwed, diogelwch a lles, neu i fynd i'r afael ag ymddygiad cysylltiedig â throseddu. Mae gan reolwyr atebol rôl hanfodol i sicrhau cydbwysedd bregus da. Nid oeddent bob amser yn rhoi digon o sylw i risg o niwed, a gwaith diogelwch a lles, ac nid oedd prosesau clir bob amser i oruchwylio hyn, fel rydym yn gweld ar gyfer gwaith wedi'r llys.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn cael ei chyfyngu i drafodaeth gyda'r rheolwr achos mewn sesiwn oruchwylio ddilynol. Tra bod hyn yn ddigonol mewn sawl achos, roedd angen i reolwyr atebol dargedu eu goruchwyliaeth i sicrhau ei bod yn amserol a bod ansawdd y gwaith yn cael ei sicrhau - er enghraifft, lle bo dangosyddion risg o niwed, diogelwch neu les uwch, gan gynnwys plant a ddosbarthwyd fel bod mewn angen neu'n amodol ar gynllun diogelu plentyn, plant sy'n derbyn gofal neu lle ceir troseddau difrifol.

**Paneli craffu**

Darperir goruchwyliaeth ac atebolrwydd ledled yr ardal ynghylch addasrwydd penderfyniadau gwarediad gan baneli craffu, a arweinir fel arfer gan yr heddlu neu'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCC) ac maent yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y tîm troseddau ieuenctid (YOT). Gwelom dystiolaeth o baneli craffu ymhob ardal. Nid oedd, fodd bynnag, ddull cyson y dewisir achosion ar eu cyfer i'w hystyried. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr achosion a ddewiswyd yn seiliedig ar thema (er enghraifft, math o drosedd), a oedd yn aml yn eithrio achosion a oedd yn cynnwys plant o gwbl. Roedd rhai paneli craffu'n cynnwys troseddwyr a oedd yn oedolion yn ogystal â phlant, gan leihau'r amser a dreulir ar faterion yn effeithio ar blant.

Mae'r fframweithiau gwarediad tu allan i'r llys ar gyfer plant ac oedolion yn wahanol; mae gan y system cyfiawnder ieuenctid amcanion penodol ar gyfer atal troseddu a phlant sy'n derbyn canlyniadau cadarnhaol, a gall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad plant ac oedolion fod yn eithaf gwahanol. Felly, gall y ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau amrywio. Lle roedd achosion plant yn lleiafrif o achosion yn unig a graffwyd arnynt gan banel cyfunedig, nid oeddem yn hyderus y byddai'r gwahaniaethau mewn dull a oedd eu hangen yn cael eu deall yn llawn bob amser. Roedd Leeds (Heddlu Dwyrain Swydd Efrog) yn cynnal paneli craffu ar wahân, ac roedd rhai ardaloedd eraill yn ystyried gwahanu oedolion a ieuenctid i baneli ar wahân, gydag aelodaeth ychydig yn wahanol.Rydym yn ystyried y dylai pob ardal ystyried y dull hwn.

## 3.4 Casgliadau a goblygiadau

Roedd ymrwymiad ac arweinyddiaeth timau troseddau ieuenctid (YOTs) a phartneriaid i waith tu allan i'r llys mewn ardaloedd lleol yn dda. Roedd cysylltiadau effeithiol â gwaith dargyfeiriol neu help cynnar arall. Roedd perthynas â'r heddlu'n dda. Roedd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCCs) yn mabwysiadu rôl strategol a chyllid gynyddol bwysig yn y gwaith hwn.

Roedd rhai enghreifftiau o ganlyniadau aildroseddu cadarnhaol a gyflawnwyd yn dilyn gwarediadau cyn rhybuddiad tu allan i'r llys. Roedd angen mwy o sylw, fodd bynnag, i sicrhau bod gwaith cystal ac mor effeithiol ag y gallai fod, ar lefel strategol yn ogystal â gweithredol. Byddai trefniadau craffu lleol hefyd yn elwa o gydnabyddiaeth gynyddol o'r ffactorau penodol sy'n gymwys i waith gwarediad tu allan i'r llys gyda phlant.

# 4. Cyfraniad yr heddlu at waith gwarediad tu allan i'r llys gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs)

Mae'r heddlu'n bartner hanfodol sy'n dylanwadu ar y cyfle i'r tîm troseddau ieuenctid wneud cyfraniad amserol ac effeithiol at atal troseddu gan blant sy'n gymwys i dderbyn gwarediad tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, canfuom fod hyn yn gadarnhaol, er bod rhai agweddau y dylid eu gwella. Yn y bennod hon, rydym yn archwilio agweddau o'u gwaith sy'n fwyaf perthnasol yn uniongyrchol i sicrhau cydweithio effeithiol gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).

## 4.1 Canfyddiadau arolygiadau blaenorol

Mae dau arolygiad blaenorol wedi sôn am rôl yr heddlu yn y gwaith hwn.

Roedd y casgliadau a'r argymhellion yn*Facing up to offending*, arolygiad ar y cyd o gyfiawnder adferol,[18] yn cynnwys:

- Gan fod datrysiadau anffurfiol yn cael eu cynnal fel arfer y tu allan i'r ddalfa a heb ddiogelwch arferol y cod ymarfer sy'n cynnwys cwestiynu a thriniaeth carcharorion, mae'r un mor bwysig bod yr heddlu'n sicrhau bod y safon o wneud penderfyniadau o safon uchel i gynnal hyder y cyhoedd.

- I wella ansawdd gwneud penderfyniadau, a chynyddu atebolrwydd, dylai heddluoedd sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer datrysiadau cymunedol yn ddigon trwyadl ac yn cynnwys dadansoddiadau o farn dioddefwyr, ac ymgynghori a chysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol (gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron, timau troseddau ieuenctid (YOTs) ac ymddiriedolaethau prawf).

- I hyrwyddo ymgysylltiad dioddefwyr yn effeithiol mewn paneli troseddwyr ieuenctid, dylai timau troseddau ieuenctid sicrhau bod: amseroldeb, yn arbennig y cyswllt cyntaf, yn cwrdd ag anghenion y dioddefwr; bod cysylltiad â dioddefwyr yn canolbwyntio'n glir ar y manteision posibl iddynt; a bod dioddefwyr felly'n gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn.

Roedd yr arolygiad thematig *Crime recording – making the victim count*[19] wedi argymell y dylai gwarediadau tu allan i'r llys 'gael eu defnyddio'n briodol gan yr heddlu a dylid ystyried barn y dioddefwr a'r gymuned ehangach yn gywir'.

Trafodir ymarfer presennol mewn perthynas â'r argymhellion hyn ymhellach yn y bennod hon ac mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, ond nid oedd rhai meysydd ymarfer, yn arbennig mewn perthynas â dioddefwyr, wedi gwella'n ddigonol.

## 4.2 Cyfraniad yr heddlu at waith gwarediad tu allan i'r llys

**Cyfarwyddyd cenedlaethol gwarediadau tu allan i'r llys** – mae tair prif ffynhonnell o gyfarwyddyd cenedlaethol i swyddogion yr heddlu:

- Mae'r Coleg Plismona Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP)[20] yn rhoi cyfarwyddyd i swyddogion ar warediadau tu allan i'r llys, gan gynnwys datrysiadau cymunedol, sy'n gymwys i droseddwyr sy'n oedolion yn ogystal â ieuenctid;
- Dogfen y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – *Gwarediadau ieuenctid tu allan i'r llys: cyfarwyddyd i'r heddlu a'r gwasanaethau troseddau ieuenctid*;[21] a

---

[18] Joint Criminal Justice Inspectorates, *Facing up to offending: Use of restorative justice in the criminal justice system*, Medi 2012

[19] Joint Criminal Justice Inspectorates, *Crime recording: making the victim count*, Tachwedd 2014

[20] *Mae Erlyn a Rheoli Achos* yn darparu cyfarwyddyd i heddlu ar ganlyniadau cyfiawnder posibl yn dilyn ymchwiliadau. Mae ar gael o www.app.college.police.uk

- Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) *Cyfarwyddyd ar ddefnyddio Datrysiadau Cymunedol gan gynnwys Cyfiawnder Adferol*. [22]

Mae cyfarwyddyd y Coleg Plismona'n ogystal â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei gwneud yn glir cyn y gellir ystyried datrysiad cymunedol dylai'r troseddwr honedig gyfaddef ei fod yn euog. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd prif swyddogion heddlu Cymru (ACPO) yn datgan y dylai'r troseddwr 'dderbyn cyfrifoldeb' am y drosedd. Mae'r anghysondeb hwn yn rhannol i ystyried bod swyddogion yr heddlu'n delio â datrysiadau cymunedol yn aml i ffwrdd o orsaf yr heddlu a bod datrysiad cyflym i'r digwyddiad yn aml yn well, a chydnabod natur lefel isel y troseddau o dan sylw'n aml. Gellir delio â digwyddiadau megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, nad ydynt yn eu hunain yn golygu trosedd, hefyd drwy ddatrysiad cymunedol. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn terminoleg yn ddryslyd a dylid ei gywiro.

Ar gyfer datrysiadau cymunedol, gofynnwyd i blant yn aml lofnodi ffurflen lle roedd blwch wedi'i dicio ochr yn ochr â geiriau a oedd yn golygu bod cyfrifoldeb am y drosedd wedi'i dderbyn. Canfuom fod cyfaddefiad o gyfrifoldeb yn y rhan fwyaf o achosion a arolygwyd gennym. Roedd, fodd bynnag, nifer fach iawn o achosion lle nad oedd yn glir bod cyfaddefiad o gyfrifoldeb wedi'i wneud. Mae hyn yn fater peryglus o bosibl. Mae wedi'i gymhlethu gan nifer o blant heb fod yn ymwybodol o oblygiadau derbyn datrysiad cymunedol ar archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn y dyfodol a drafodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

Ni ddylai'r dyhead i ddelio'n gyflym â honiadau o droseddu fod ar draul hawl unigolion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth lawn, yn arbennig pan fydd yr heddlu'n siarad â'r plentyn yn y lle cyntaf a lle nad yw oedolion yn bresennol.

Pan fydd yr heddlu'n ystyried bod gwarediad tu allan i'r llys yn briodol, mae'r APP yn gofyn i'r swyddog sy'n ymchwilio a'u goruchwyliwr ystyried unrhyw ffactorau difrifol sy'n ymwneud â'r drosedd wrth ddefnyddio'r 'matrics ffactor difrifoldeb gwarediad achos troseddwr ieuenctid' a luniwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)[23] (y daeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogon yr Heddlu (NPCC) yn ei lle yn 2015).Mae'r gwneud penderfyniad hwn hefyd yn ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol sy'n ymwneud â'r troseddwr, difrifoldeb y drosedd a barn y dioddefwr.

### Defnydd yr heddlu o ddatrysiadau cymunedol

Gall swyddog yr heddlu gyflwyno datrysiad cymunedol i ffwrdd o orsaf yr heddlu, heb gyfeirio'n flaenorol at y tîm troseddau ieuenctid (YOT). Mewn rhai achosion, canfuom fod mwy nag un datrysiad cymunedol wedi'i gyflwyno i'r un plentyn heb gyfeirio at y tîm troseddau ieuenctid (YOT). Ar gyfer ail ddatrysiad cymunedol neu ddatrysiad cymunedol dilynol wedi'i gyflwyno gan swyddog, roedd yr holl luoedd a arolygwyd yn gofyn i arolygwr awdurdodi hyn, yn ogystal â sail resymegol am eu penderfyniad. Yn yr achosion a archwiliwyd gennym lle roedd mwy nag un datrysiad cymunedol wedi'i gyflwyno gan yr heddlu, roedd y penderfyniadau'n briodol. Gwelom, fodd bynnag, nad oedd llawer o dystiolaeth o samplu gan luoedd i sicrhau ansawdd y gwneud penderfyniad cychwynnol gan swyddogion y rheng flaen.

Mewn un ardal, roedd swyddogion yn gallu rhoi un datrysiad cymunedol yn unig cyn i'r achos yna gael ei gyfeirio i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) i'w cynnwys yn y gwneud penderfyniad. Yn y man hwn, nid oedd terfyn i'r nifer o ddatrysiadau cymunedol gan eu bod yn amodol ar yr asesiad

---

[21] *Youth Out-of-Court Disposals Guide for Police and Youth Offending Services*. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2013

[22] *Guidelines on the use of Community Resolutions (CR) including Restorative Justice (RJ).* ACPO 2014.

[23] Roedd y system ffactor difrifoldeb gwarediad achos troseddwr ieuenctid wedi'i llunio gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Gartref, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a swyddogion Uned Cyfiawnder Ieuenctid Ar y Cyd, a'i diweddaru yn dilyn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Deddfu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012.

ychwanegol a goruchwyliaeth panel gwneud penderfyniadau. Roedd yn broses effeithiol i sicrhau ansawdd.

**Hysbysu timau troseddau ieuenctid (YOT) ynghylch datrysiadau cymunedol**

Canfuom mewn rhai ardaloedd fod heddlu'n hysbysu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), neu'r ganolfan ddiogelu amlasiantaeth (MASH) yn awtomatig, pryd bynnag roedd datrysiad cymunedol wedi'i gyflwyno. Roedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedyn yn gallu ystyried p'un ai cynnig gwasanaethau i'r plentyn. Roedd hyn yn arfer da gan ei fod yn rhoi'r cyfle i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ystyried unrhyw faterion teuluol neu faterion eraill a allai fod wedi cyfrannu at y troseddu, gan roi cyfle cynnar i atal yr ymddygiad rhag gwaethygu ac aildroseddu. Lle nad oedd hyn yn digwydd, roedd yn gyfle pwysig a gollwyd i weithio ar y cyd i leihau aildroseddu gan blant.

Unwaith y bo troseddu wedi'i ailadrodd, mae'n arbennig o bwysig bod y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn gallu mynd i'r afael â hyn cyn ei fod wedi'i sefydlu. Mewn un ardal, canfuom dystiolaeth bod rhai plant wedi derbyn hyd at bedwar datrysiad cymunedol cyn i atgyfeiriad gael ei wneud i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Dylai fod gan yr heddlu a phartneriaid lleol systemau i hysbysu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ynghylch pob datrysiad cymunedol, fel y gall ystyried cynnig gwasanaethau lle gallent fod o fudd.

**Gwneud penderfyniadau rhybuddiad/rhybuddiad amodol ieuenctid**

Mae gan wneuthurwyr penderfyniadau'r heddlu'r awdurdod i wneud penderfyniadau cyhuddo ar gyfer rhai mathau o droseddau heb gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron.[24] Roedd yn gadarnhaol bod pob llu'r heddlu a arolygwyd yn atgyfeirio achosion o blant i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) i gael cyngor cyn penderfynu a ddylent roi rhybuddiad/rhybuddiad amodol ieuenctid ai peidio.

Mewn rhai ardaloedd, roedd yr atgyfeiriad hefyd yn cynnwys y cyfle ar gyfer ystyriaeth cyn cyhuddiad gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT) ymhob un ond y troseddau mwyaf difrifol. Lle roedd hyn yn digwydd, roedd yn golygu bod y penderfyniad yn gallu cael ei hysbysu gan wybodaeth berthnasol am y plentyn, ac felly'n galluogi plant eraill i gael eu dargyfeirio, lle y bo'n briodol, i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol.

**Ymgysylltu'r dioddefwr** – Mae'r heddlu'n ymgymryd â chyswllt cychwynnol â'r dioddefwr yn ystod eu hymchwiliadau. Unwaith y penderfynir ystyried gwarediad tu allan i'r llys a fydd yn cynnwys atgyfeiriad i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), dylai'r heddlu hysbysu'r dioddefwr am rôl y tîm troseddau ieuenctid (YOT) a gofyn am ganiatâd i roi eu manylion i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Mae'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yna'n ymgymryd ag unrhyw gyswllt parhaus â'r dioddefwr, gan gynnwys fel y mae'n ystyried ac yna'n darparu gwaith adferol. Nid oedd dioddefwyr y cyfarfuom â nhw bob amser wedi deall yn glir, gan yr heddlu, beth oedd pwrpas rhoi eu gwybdoaeth i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).

Roedd hefyd yn aneglur a oedd y cyfle wedi'i gymryd, wrth hysbysu'r dioddefwr am hyn, i'w hannog i ymateb yn gadarnhaol i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Lle nad oedd dioddefwyr yn ymgysylltu, roedd yn fwy anodd i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae'n bwysig bod yr heddlu sy'n gyfrifol am y gwaith hwn yn deall rôl y tîm troseddau ieuenctid (YOT) ac yn annog dioddefwyr i ymgysylltu ag ef.

Roedd y modd bod y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn cysylltu â dioddefwyr yn amrywio yn yr heddluoedd yr ymwelom â nhw. Mewn rhai, roedd swyddogion dioddefwyr y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn ceisio ymgysylltu â dioddefwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd i drafod ymyriadau sydd ar gael a gofyn am eu barn ynghylch cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol. Lle roedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cymryd y cam cyntaf roedd hyn yn arfer da, ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r tebygolrwydd bod y dioddefwr am gymryd rhan mewn rhyw fodd (gweler Pennod 5).

---

[24] Wasanaeth Erlyn y Goron, *Director's Guidance on Charging, 5$^{th}$ Edition*, Mai 2013.

Mewn un tîm troseddau ieuenctid (YOT), fodd bynnag, roedd dioddefwyr yn derbyn un llythyr yn unig, heb unrhyw gyfathrebu dilynol. Os nad oedd ymateb, rhagdybiwyd nad oedd y dioddefwr am gymryd rhan ymhellach. Nid ydym yn gwybod pa mor gyffredin yw'r arfer hwn (er ei fod yn ailadrodd arfer a ganfuwyd wrth i ni arolygu gorchmynion atgyfeirio) ond yn ein barn, nid oedd yn dangos ymrwymiad digonol i sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei glywed a'u bod yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn am eu hymrwymiad. Trafodir y materion hyn ymhellach yn ein harolygiad *Arolygiad thematig – o orchmynion atgyfeirio*[25], lle rydym yn pwysleisio pwysigrwydd cyflawni cyswllt personol llafar gyda'r dioddefwr.

**Gwneud penderfyniadau ar y cyd** – Ymhob ardal yr ymwelom â nhw roedd panel gwneud penderfyniadau ar y cyd neu broses a oedd yn cynnwys yr heddlu, y tîm troseddau ieuenctid (YOT) ac o bryd i'w gilydd staff partner ac, ar brydiau, aelod annibynnol o'r gymuned. Roedd yn cynnwys yr holl achosion gwarediad tu allan i'r llys a atgyfeiriwyd i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) i gael cyngor. Fel a drafodwyd mewn man arall, roeddem yn ystyried defnyddio panel gwneud penderfyniadau ffurfiol yn arfer da. (Gweler Pennod 5). Roedd gan aelodau panel y cyfle i gyfrannu at y penderfyniad ar y canlyniad mwyaf priodol ar gyfer y plentyn, tra'n ystyried barn ac anghenion y dioddefwr yn gyffredinol.

**Profi yn y fan a'r lle gyda'r heddlu** – Ymhob ardal llu, ymwelom â'r gymdogaeth leol a thimau ymateb yr heddlu i brofi'u dealltwriaeth am warediadau tu allan i'r llys, a'r prosesau y dylent eu dilyn. Ymwelom hefyd ag ystafelloedd y ddalfa leol a ddefnyddir ar gyfer plant, gyda'r un bwriad.

Roedd pob un o'r swyddogion a'r staff y siaradom â nhw'n deall yr amcanion ac yn ymwybodol o'r protocol perthnasol neu bolisi'r llu i atgyfeirio plant i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), pan oeddent yn ystyried nad oedd datrysiad stryd cychwynnol yn briodol. Ar gyfer plant yr eid â nhw i ddalfa'r heddlu, roedd yn gadarnhaol bod sarjantiaid dalfa hefyd yn deall y broses hon, ac yn ymwybodol o'r angen i atgyfeirio plant i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) cyn penderfynu ar y canlyniad ymhob un ond yr achosion mwyaf difrifol.

**Oedi i gyflwyno hysbysiadau i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT)** – Un o'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu gwarediadau tu allan i'r llys yw y dylid delio â nhw'n gyflym yn dilyn y drosedd. Mae hyn i roi canlyniad cyflym i'r dioddefwr, ac i gyflwyno unrhyw ymyriadau tra bod yr ymddygiad troseddol yn dal yn ffres ym meddwl y plentyn. Mae'n bwysig bod plant yn cael eu cynorthwyo i symud ymlaen a'r angen am newid i gael ei atgyfnerthu cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymddygiad troseddol.

Lle disgwylid i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) wneud asesiad, neu gyfrannu at wneud penderfyniadau, roeddem yn ystyried ei bod yn rhesymol iddynt dderbyn yr atgyfeiriad o fewn pum niwrnod gwaith o'r plentyn yn cael ei gyfweld ac yn derbyn eu cyfrifoldeb. Bodlonwyd y meincnod hwn mewn ychydig dros dwy ran o bump o achosion yn unig. Roedd rhai achosion yn cymryd sawl mis i gyrraedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) o ddyddiad y drosedd. Roedd dod o hyd i resymau am yr oedi tu allan i gwmpas yr arolygiad hwn, ac mewn sawl un byddant wedi'u cysylltu â'r broses ymchwiliol. Mae'r oedi'n cynyddu'r risgiau y bydd y dioddefwr yn peidio ag ymgysylltu cyn y delir â'r achos, y bydd y plentyn yn aildroseddu oherwydd yr oedi mewn gwaith ymyrraeth gyda nhw, ac y bydd unrhyw waith dilynol gyda'r plentyn i leihau'r tebygolrwydd o droseddu'n llai effeithiol, gan y gallai eu hagwedd a'u haeddfedrwydd fod wedi newid yn sylweddol yn y cyfamser.

**Cyflwyno rhybuddiadau a rhybuddiadau amodol** – Roedd cyfrifoleb i gyflwyno'r rhybuddiad yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd, roedd yn cael ei gyflwyno gan unigolyn dynodedig unigol neu gan swyddog yr heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) (gweler yr Eirfa). Mewn eraill, roedd yn cael ei gyflwyno yn y gymdogaeth lle roedd y drosedd wedi digwydd, ond weithiau roedd hyn yn achosi anawsterau cyfathrebu gan nad oedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) bob amser yn ymwybodol ei fod wedi'i gyflwyno neu wedi derbyn copi o'r rhybuddiad amodol a gytunwyd. Pan gyflwynwyd y

---

[25] Arolygiaeth Prawf EM, *Arolygiad thematig o orchmynion atgyfeirio*, Gorffennaf 2016

rhybuddiad gan swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), roedd yn gyfle gwerthfawr i'w gysylltu ag ysgogiad i ymgysylltu â gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT).

**Enghraifft o arfer da - gwaith ar y cyd i wella ysgogiad**

Roedd Colin wedi derbyn rhybuddiad am fod ym meddiant canabis. Pan gyfaddefodd ei fod yn euog, nid oedd wedi ystyried y dylid bod wedi ei drin fel trosedd, ac roedd yn gwrthod ymgysylltu a'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Gan sylweddoli nad oedd wedi deall goblygiadau'r rhybuddiad, briffiodd rheolwr yr achos swyddog yr heddlu am ei agwedd, fel ei bod yn barod ac yn gallu delio ag ef. O ganlyniad, roedd wedi derbyn y rhybuddiad ac wedi gwneud peth gwaith gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ynghylch effeithiau defnyddio canabis.

**Olion bysedd a DNA** – Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)[26] fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010[27] yn caniatáu i heddlu gymryd olion bysedd a DNA (data biometrig) plentyn pan fyddant yn derbyn rhybuddiad neu rybuddiad amodol ieuenctid am drosedd y dylid ei chofnodi. Lle roedd y plentyn wedi derbyn rhybuddiad neu rybuddiad amodol heb gael ei arestio yn ystod yr ymchwiliad, canfuom nad oedd olion bysedd a samplau DNA yn cael eu cymryd bob amser. Roedd prosesau annigonol weithiau i sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried. Mewn achosion o'r fath, ni all lluoedd yr heddlu wedyn gymharu'r data biometrig yn erbyn yr hyn a gasglwyd o safleoedd troseddau, ac felly mae cyfleoedd i ddatrys troseddau'n cael eu colli ac mae amddiffyniad annigonol yn erbyn defnyddio pobl eraill o bosibl i ddianc rhag cyfiawnder. Gall hyn yn ei dro olygu bod cofnod troseddu cyfrifiadur cenedaethol yr heddlu (PNC) yn anghyflawn.

## *4.3 Casgliadau a goblygiadau*

Yn gyffredinol, canfuom fod yr heddlu'n gweithio'n dda i gyflwyno a chefnogi gwarediadau tu allan i'r llys er y gellid rhoi mwy o ystyriaeth i gynnwys dioddefwyr gan yr heddlu yn ogystal a'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).

Roedd y gwaith hwn yn cael ei ddeall yn dda gan staff yr heddlu a oedd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol ag ystyried ei addasrwydd. Roedd rhai achosion yn cymryd amser hir i gael eu hatgyfeirio i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), fodd bynnag, ac nid oedd y rhesymau bob amser yn glir. Yn fwy fyth, nid oedd timau troseddau ieuenctid (YOT) bob amser yn ymwybodol o warediadau a roddwyd gan yr heddlu ac felly nid oeddent bob amser yn gallu ystyried a fyddai angen ymyrraeth o bosibl.

Nid oedd systemau ar gyfer sicrhau bod olion bysedd a DNA'n cael eu cymryd mewn achosion rhybuddiad ieuenctid (YC) a rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC) yn effeithol.

[26] Mae Adran 61 (6) paragraff 3 o atodlen 2A Deddf yr Heddlu a Thystolaeth Droseddol1984 yn caniatáu i gwnstabl fynnu bod unigolyn yn mynychu gorsaf yr heddlu er mwyn cymryd olion bysedd ar yr amod bod y grym yn cael ei ddefnyddio o fewn dwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu rhybuddiad.

[27] Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 Pennod 17.

# 5. Prosesau gwneud penderfyniadau

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r cynlluniau gwahanol ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys roeddem wedi ymweld â nhw ac yn edrych ar effeithiolrwydd y trefniadau gwneud penderfyniadau y canfuom.

## *5.1 Crynodeb o'r trefniadau yn yr ardaloedd a arolygwyd*

**Swydd Durham -**Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cyflwyno datrysiad cymunedol cychwynnol. Atgyfeirir pob achos arall sy'n addas ar gyfer gwarediad tu allan i'r llys i'r tîm troseddau ieuenctid i gael penderfyniad, ac mae pob achos yn cael ei asesu cyn y penderfyniad ynghylch gwarediad. Defnyddir Asset Plus (fframwaith asesu a chynllunio'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) a ddefnyddir gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) ar gyfer plant sydd wedi derbyn rhybuddiad yn flaenorol neu'n cael eu hargymell ar gyfer rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC). Defnyddir asesiad help cynnar lleol, neu ddadansoddiad trosedd, ar gyfer achosion eraill. Mae'r penderfyniad ar gyfer gwarediad yn cael ei wneud ar y cyd gan reolwr ardal tîm troseddau ieuenctid (YOT) a swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), ac mae'r rheolwr achos yn bresennol i roi cyngor. Roedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn gweithio i, ac yn cyflawni ar y cyfan, darged o ddeg niwrnod gwaith o dderbyn yr atgyfeiriad gan yr heddlu tan fod yr asesiad wedi'i gwblhau a'r penderfyniad wedi'i wneud.

**Sir y Fflint –** Yn gyffredin â thimau troseddau ieuenctid (YOTs) eraill yng Nghymru, roedd Sir y Fflint wedi gweithredu'r system (panel) 'Bureau' a ddatblygwyd yn wreiddiol yn Abertawe. Roedd pob achos lle mae gwarediad tu allan i'r llys yn cael ei ystyried, ond am y rhai hynny lle roedd datrysiad cymunedol uniongyrchol yn cael ei gyflwyno gan swyddog yr heddlu, yn cael eu hatgyfeirio i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Mae rheolwr achos y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn asesu'r plentyn ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer cyfarfod y Bureau. Mae'r panel yn cynnwys swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) a rheolwr tîm troseddau ieuenctid (YOT), gyda'r ychwanegiad diweddar o wirfoddolwr cymunedol; nid yw'r rheolwr achos yn bresennol. Mae'r panel yn adolygu'r adroddiad ac yn gwneud ei benderfyniad o ganlyniad. Mae swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yna'n gwneud trefniadau gyda'r plentyn i gyflwyno'r gwarediad, sy'n digwydd drannoeth yn aml.

**Leeds –** Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cyflwyno datrysiad cymunedol ar gyfer achosion â sgôr difrifoldeb Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) o 1 i 3 lle yr ystyrir hyn fel y canlyniad priodol, os mai dyma drosedd gyntaf y plentyn neu fod unrhyw ddatrysiad cymunedol arall yn fwy na 12 mis oed. Fel arall, yn amodol bod yr achos yn addas ar gyfer gwarediad tu allan i'r llys, mae'n cael ei anfon ymlaen i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) i'w ystyried. Mae'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn gwneud asesiad ac yn cysylltu â'r dioddefwr i gael eu barn. Mae ansawdd yr asesiad a'r adroddiad ar gyfer y panel yn cael eu sicrhau cyn eu bod yn cael eu cwblhau.

Mae'r panel gwneud penderfyniadau'n cwrdd yn wythnosol ac yn cynnwys rheolwr ardal tîm troseddau ieuenctid (YOT), swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) a secondiwyd a gwirfoddolwr cymunedol. Mae arbenigwr therapi amlsystemig (MST) hefyd yn bresennol i nodi a rhoi cyngor ar achosion lle mae ffactorau'r rhieni'n dangos y gallai mewnbwn therapi amlsystemig (MST) fod yn werthfawr. Mae'r panel yn gwneud yr holl benderfyniadau, ac eithrio mewn achosion lle mae plentyn wedi derbyn rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC) yn y 12 mis blaenorol, pan fydd argymhelliad y panel yn cael ei gyflwyno i arolygydd yr heddlu i'w gadarnhau. Yn dilyn y penderfyniad hwn, mae'r achos yn cael ei neilltuo i glinig canlyniadau ar gyfer yr wythnos ganlynol, pan fydd y gwarediad yn cael ei weinyddu gan swyddog yr heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).

**Swydd Northampton** – Atgyfeirir achosion a allai fod yn addas ar gyfer rhybuddiad ieuenctid (YC) neu rybuddiad amodol ieuenctid (YCC), a rhai a allai fod yn addas ar gyfer datrysiad cymunedol (CR), i dîm troseddau ieuenctid (YOT) a thîm yr heddlu ar y cyd i'w hystyried. Defnyddir proses brysbennu, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r atgyfeiriad, yn ogystal â gwybodaeth gyfredol gan bartneriaid, yr heddlu ac ymrwymiad tîm troseddau ieuenctid (YOT) blaenorol. Defnyddir graddfa a

ddilysir yn lleol, a hysbysir gan ddadansoddiad o tua 2000 o blant, i nodi lefel yr angen ac a ddylid cynnig rhaglen o gefnogaeth. Mae dyfarniadau cychwynnol ynghylch canlyniad yn cael eu gwneud gan swyddog yr heddlu a chynrychiolydd tîm troseddau ieuenctid (YOT). Craffir ar y rhain ac maent yn cael eu cadarnhau gan reolwr tîm, gan gynnwys ymgynghoriad pellach gyda'r heddlu fel y bo'n briodol. Neilltuir achosion lle nodir rhaglen o waith, gan gynnwys pob achos y tîm troseddau ieuenctid (YOT), i reolwr achos, gydag asesiad wedi'i gynnal cyn cyflwyno'r gwarediad ffurfiol. Cynigir rhaglen ymyrraeth, a hysbysir gan yr asesiad, a all dynnu ar sgiliau staff o'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), yr heddlu a phartneriaid allanol.

**De Swydd Gaerloyw –** Cyn Mawrth 2017, achosion â sgôr difrifoldeb trosedd o 3 neu achosion ar gyfer ail rybuddiad neu rai dilynol neu rybuddiadau amodol yn unig a oedd yn cael eu hatgyfeirio i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Yn dilyn cydnabyddiaeth gan bartneriaid y gallai llawer o achosion eraill elwa o ymyrraeth, ers Mawrth 2017 mae pob achos lle gallai gwarediad tu allan i'r llys fod yn briodol wedi'u hatgyfeirio i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), yn hytrach na'r rhai lle roedd yr heddlu'n barod wedi cyflwyno datrysiad cymunedol. Gwneir asesiad i hysbysu'r penderfyniad. Nod y tîm troseddau ieuenctid (YOT), yn gadarnhaol, yw dwy sesiwn asesu gyda'r plentyn. Mae'r rheolwr achosion yn cynhyrchu adroddiad ar gyfer cyfarfod panel, sy'n cynnwys un neu fwy o reolwyr o'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn ogystal â sarjant sy'n gweithio'n agos gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT).

**Southampton –** Atgyfeirir achosion a ystyrir ar gyfer gwarediad tu allan i'r llys, oni bai bod datrysiad cymunedol wedi'i gyflwyno'n barod gan yr heddlu, i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Mae swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn sgrinio'r achosion ac yn ailgyfeirio unrhyw rai y maent yn eu hystyried i fod yn addas ar gyfer datrysiad cymunedol yn ôl i'w swyddog ymchwilio i weithredu arno. Ar gyfer yr achosion sy'n weddill, mae gwybodaeth y gwyddys amdani am y plentyn gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT), yr heddlu a phartneriaid eraill yn cael ei chasglu at ei gilydd i hysbysu adroddiad i'r panel gwneud penderfyniadau, sy'n penderfynu ar y gwarediad i'w roi. Mae'r panel yn cynnwys sarjant yr heddlu, rheolwr tîm troseddau ieuenctid (YOT), a chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cysylltu a Dargyfeirio a gwasanaethau teulu lleol. Nid yw'r rheolwr achos yn bresennol. Yn dilyn y penderfyniad, atgyfeirir yr achos yn ôl i'r swyddog ymchwilio i gyflwyno'r gwarediad, ac mae'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn ymgymryd â'r gwaith ymyrraeth.

**Surrey –** Atgyfeirir achosion ar gyfer cyhuddiad neu warediad tu allan i'r llys, lle mae'r plentyn wedi gwneud cyfaddefiad, i banel gwneud penderfyniadau ar y cyd Surrey (JDMP). Mae'r eithriadau cyfyngedig i hyn yn cynnwys datrysiadau cymunedol cychwynnol a gyflwynir gan swyddog yr heddlu ac achosion ditiadwy'n unig. Mae'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP) yn cynnwys dau weithiwr o wasanaethau teulu Surrey (YOT) a dau sarjant yr heddlu. Gall rheolwr yr achos roi cyngor i hysbysu'r penderfyniad drwy adroddiad ysgrifenedig.

Amcan a gyhoeddwyd gan y panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP) yw darparu dewis arall i'r troseddu gan blant y gellir eu hosgoi lle bynnag y bo'n bosibl. Y canlyniad mwyaf cyffredin yw ymyrraeth adferol ieuenctid, sy'n cyfateb i ddatrysiad cymunedol gan ei fod o dan rybuddiad ieuenctid. Mae ymyrraeth adferol ieuenctid yn cyfrif am 90% o warediadau tu allan i'r llys yn Surrey sy'n codi o'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP). Atgyfeirir achosion mwy difrifol, neu lle nad yw'r dioddefwr yn cytuno â gwarediad tu allan i'r llys, at arolygydd yr heddlu i gael penderfyniad terfynol, gydag argymhelliad gan y panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP). Gall y panel gwneud penderfyniadau ar y cyd (JDMP) ddelio â phob achos arall.

## *5.2 Gwneud penderfyniadau*

Roedd gan bob ardal drefniadau gwneud penderfyniadau ar gyfer achosion tu allan i'r llys, yn hytrach nag ar gyfer achosion lle roedd datrysiad cymunedol cychwynnol yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol gan yr heddlu. Roedd hyn yn golygu y gallai penderfyniad y gwarediad ystyried barn y timau troseddau ieuenctid (YOTs) ar y gwaith a oedd yn fwyaf tebygol o gyfrannu at y plentyn yn ymatal rhag troseddu ymhellach (nid yn unig ar fanylion y drosedd a dymuniadau'r dioddefwr) - prif amcan yn yr arweiniad am waith gwarediad tu allan i'r llys. Roedd pump o'r ardaloedd yr ymwelom â nhw'n cwblhau eu hasesiad cyn gwneud penderfyniad, a oedd yn arfer da.

Mewn achosion eraill, fodd bynnag, nid oedd yr asesiadau bob amser mewn pryd i hysbysu penderfyniad y gwarediad. Er nad oedd cyfarwyddyd yn gofyn amdano'n benodol, roedd y prinder asesu'n gyfle pwysig a oedd wedi'i golli. Roedd hefyd yn golygu bod gwybodaeth a oedd ar gael i'r gwneuthurwyr penderfyniadau am gydnabyddiaeth y plentyn o'i gyfrifoldeb, dealltwriaeth a thebygolrwydd cydymffurfio ag ymyriadau gwirfoddol yn gyfyngedig i'r hyn a gafwyd yn ystod cyfweliad gan yr heddlu, heb ymchwilio a dadansoddi'r rhain ymhellach i ddeall unrhyw agweddau, anawsterau neu ysgogiad sylfaenol. Roedd hyn yn golygu nad oedd llais y plentyn unigol yn cael ei glywed yn glir i hysbysu'r penderfyniad a oedd yn cael ei wneud.

Roedd panel gwneud penderfyniadau ffurfiol yn cael ei ddefnyddio i benderfynu'r gwarediad yn y 50 o'r 112 o achosion a arolygwyd gennym. Roedd difrifoldeb aelodau'r panel ynghylch eu rôl wedi gwneud cryn argraff arnom. Roedd dwy o'r ardaloedd yr ymwelom â nhw'n cynnwys gwirfoddolwr cymunedol ar eu panel gwneud penderfyniadau. Roedd yn synhwyrol ac yn gadarnhaol i ddefnyddio llais annibynnol yn y gwneud penderfyniadau, felly'n cefnogi goruchwyliaeth y cyhoedd a thrylowyder y broses. Roedd Leeds yn ystyried bod cynnwys gwirfoddolwr cymunedol ar y panel yn dod â phersbectif ffres ac annibynnol, gan godi cwestiynau o farn o'r tu allan, ac yn ychwanegu tryloywder a gwell penderfyniadau.

Lle roedd panel wedi gwneud y penderfyniad, roedd bob amser yn cael ei hysbysu gan adroddiad a gynhyrchwyd gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT).  Roedd adroddiad o ansawdd da yn hanfodol i'w allu i wneud penderfyniad priodol. Mewn sawl achos, roedd yr adroddiad i'r panel yn debyg i adroddiad cyn dedfryd. Er bod sawl adroddiad yn ddigon da, rydym yn gwneud sylw mewn man arall am faterion risg o niwed, diogelwch a lles, a llais y plentyn yn cael ei glywed yn glir. Roedd eu hansawdd yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai wedi'u cyfyngu i grynodeb o'r ffeithiau allweddol o'r drosedd, unrhyw warediadau blaenorol a manylion sylfaenol y plentyn.  Yn y rhan fwyaf ond nid yr holl achosion, roedd cudd-wybodaeth berthnasol arall gan yr heddluoedd oedd yn ymwneud â'r plentyn, eu teulu neu'u hamgylchedd cartref hefyd yn cael eu cynnwys, gan roi cyd-destun defnyddiol ar gyfer ymddygiad y plentyn - er enghraifft, os oeddent yn byw mewn cartref lle roedd yr heddlu'n cael eu galw'n aml oherwydd trais domestig.

Mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd gennym, roedd y plentyn wedi derbyn o leiaf un gwarediad tu allan i'r llys blaenorol. Yn ein barn, roedd ystyried gwarediad pellach tu allan i'r llys yn briodol lle roedd un wedi'i roi'n flaenorol.  Mewn 10% o achosion, roedd y plentyn wedi derbyn euogfarn am drosedd wahanol cyn i'r gwarediad tu allan i'r llys gael ei wneud - er enghraifft, lle roedd y drosedd o dan ystyriaeth ar gyfer y gwarediad tu allan i'r llys wedi'i ddyddio cyn eu heuogfarn.  Yma eto roeddem wedi ystyried bod y penderfyniad i ystyried gwarediad tu allan i'r llys yn briodol. Roedd defnydd cadarnhaol o'r hyblgrwydd nawr ar gael ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys yn cael ei arddangos gan yr enghraifft ganlynol.

**Enghraifft o arfer da - defnyddio datrysiad cymunedol yn dilyn dedfryd flaenorol o garchar**

Roedd Jerome yn fachgen 17 mlwydd oed a oedd wedi derbyn dedfryd fer o garchar pan oedd yn iau o lawer. Roedd wedi'i arestio wedyn am fod ym meddiant ychydig bach o ganabis. Ar yr adeg honno, roedd Jerome wedi ymatal rhag ymddygiad troseddol am dros 18 mis.  NId oedd ganddo unrhyw droseddau cysylltiedig â chyffuriau blaenorol. Roedd Jerome wedi derbyn datrysiad cymunedol ac wedi ymgymryd ag ymyrraeth  camddefnyddio sylweddau benodol. Nid oedd wedi dod i sylw'r heddlu wedi hynny. Yn yr achos hwn, roedd defnyddio datrysiad cymunedol yn fodd priodol o gefnogi ymataliaeth barhaus gan Jerome, trwy'r system cyfiawnder gan gydnabod cymaint roedd ei ymddygiad wedi gwella.

Roedd, fodd bynnag, ambell dro pan oedd penderfyniad y gwarediad wedi'i benderfynu'n effeithiol rhwng swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) a rheolwr tîm troseddau ieuenctid (YOT) cyn i'r panel gwrdd; nid oedd hyn yn briodol, ac roedd yn dargyfeirio rôl y panel.

Ar gyfer gwneud penderfyniadau, mewn panel neu fel arall, i fod yn broses wirioneddol ar y cyd, dylai fod gan bob aelod o'r corff gwneud penderfyniadau hynafedd digonol ac awdurodod a neilltuwyd i ddehongli polisi yng ngoleuni amgylchiadau achos unigol, i wneud penderfyniadau diffynadwy. Gwelom sawl enghraifft gadarnhaol lle roedd y broses gwneud penderfyniadau wedi gwneud hyn yn briodol. Mewn enghreifftiau eraill, fodd bynnag, nid oedd modd cytuno ac roedd yr achos wedi'i wneud yn waeth, yn bennaf oherwydd nad oedd gan gynrychiolydd yr heddlu'r hynafedd neu'r awdurdod dynodedig oedd eu hangen. Tra bod amgylchiadau, yn arbennig ar gyfer achosion mwy difrifol neu gymhleth, lle dylid dwysáu penderfyniad y gwarediad terfynol ar gyfer cadarnhad terfynol, dylai'r rhain fod yn eithriadau.

**Enghraifft arfer da - defnyddio datrysiad cymunedol mewn achos difrifol**

Roedd Michael wedi derbyn datrysiad cymunedol am feddu teclyn â min (cyllell cegin fach) ar dir coleg. Oherwydd ei anawsterau dysgu difrifol, roedd ganddo ddealltwriaeth wael iawn o'r hyn oedd yn dda neu'n ddrwg ac yn agored i niwed o gael ei gam-drafod. Oherwydd yr anawsterau hyn, gwnaethpwyd achos cryf a diffynadwy am pam, er ei ddifrifoldeb, fod datrysiad cymunedol yn briodol. Roedd yn benderfyniad priodol yn yr achos hwn.

Mewn sawl ardal, roedd y broses gwneud penderfyniadau'n cael ei chefnogi gan siart lif glir. Yn Leeds, er enghraifft, roedd y siart lif yn cychwyn yn ddefnyddiol yn y man y cyflawnwyd trosedd, yn cynnwys yr amgylchiadau lle roedd yr heddlu'n gallu cyflwyno datrysiad yn syth, yn disgrifio'r asesiad allweddol a chyswllt â'r dioddefwr, cerrig milltir a phrosesau a oedd yn arwain at y panel gwneud penderfyniadau, ac yn cynnwys yr amgylchiadau lle byddai angen i'r panel ddwysáu penderfyniad at arolygydd yr heddlu.

Mae'n bwysig, ar gyfer trylowyder, goruchwyliaeth ac amddiffyn, fod y sail resymegol ar gyfer penderfyniadau gwarediad tu allan i'r llys wedi'i chofnodi'n glir. Yn yr achosion a arolygwyd gennym, roedd ansawdd hyn yn amrywiol.

Roedd y fforwm a oedd yn gwneud y penderfyniad hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer yr ymyriadau a oedd eu hangen, gan gynnwys amodau a gynigiwyd ar gyfer rhybuddiadau amodol ieuenctid. Er bod gwerth gwneud hyn, dylid ei wneud yn dilyn asesiad addas yn unig. Dylai amcanion ddisgrifio'r newid amcan sydd ei angen, a sut y bydd yn cael ei gyflawni. Roedd amcanion a oedd yn codi o'r fforwm gwneud penderfyniadau prin yn cwrdd â'r safon hon, ac felly nid oeddent yn ystyrlon i blentyn. Trafodir pwysigrwydd cynnwys y plentyn mewn cynllunio, yn hytrach na rhywun arall yn penderfynu'n syml beth sydd yn cael ei wneud iddynt, ym Mhennod 6. Mewn achosion rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC), yr amodau, mewn gwirionedd, yw'r cynllun ymyrraeth sydd wedi'i gytuno â'r plentyn. Mae felly'n bwysig eu bod yn cwrdd â'r safonau gorau o osod amcanion. Roedd y cynigion yn ddigon clir mewn 55% o achosion rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC) yn unig.

Lle roedd gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT) y cyfle i gyfrannu at wneud penderfyniadau, roedd yn glir ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn y rhan fwyaf o achosion.

## *5.3 Casgliadau a goblygiadau*

Canfuom fod fforymau gwneud penderfyniadau'n gweithio'n dda'n gyffredinol. Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag atynt.

Gallent wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth ac argymell ymyriadau'n well os oedd ganddynt asesad o'r plentyn bob amser, er enghraifft mewn adroddiad ysgrifenedig. Byddai rhai paneli'n fwy effeithiol fyth os byddent yn sicrhau bod amcanion unrhyw ymyrraeth yn cael eu hystyried yn dda ac yn cael eu mynegi mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r plentyn, a'u bod yn cynnwys y plentyn mewn cynllunio.

# 6 Arfer rheoli achosion

Mae'r bennod hon yn ystyried arfer rheoli achosion gwaith gwarediad tu allan i'r llys a wneir gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs). Mae'r canfyddiadau wedi'u tynnu o'r 112 o achosion a arolygwyd yn ystod gwaith maes yr arolygiad.

## 6.1 Asesu

Roedd asesiadau achos yn amrywiol ond o ansawdd boddhaol yn gyffredinol. Roedd gan bob fframwaith asesu ei gryfderau sylweddol ei hun ac eto dylai pob un gael ei ddatblygu ymhellach. Mewn ymarfer, roedd angen mwy o sylw ar y risg o niwed, ac roedd angen cwblhau asesiadau'n gynt weithiau.

Roedd rheolwyr achos yn arddangos sgiliau asesu da'n gyffredinol. Roeddent yn gwneud ymdrech ddigonol i ddeall pam roedd y plentyn wedi troseddu, a beth allai atal hyn, mewn ychydig o dan dri chwarter o achosion. Roedd yr amrywiaeth yn ansawdd yr asesiadau'n gysylltiedig yn bennaf â'r fframweithiau asesu a oedd yn cael eu defnyddio. Roedd, fodd bynnag, dueddiad mwy cyffredinol i gyfyngu dadansoddi ymddygiad troseddol i'r drosedd benodol, gyda sylw annigonol yn cael ei roi i ymddygiadau perthnasol eraill.

Yn aml nid oedd digon o sylw mewn asesiadau i risg o niwed i'r plentyn unigol, na'r risg o niwed y gallent fod i eraill. Roedd rhai asesiadau, hyd yn oed rhai o'r rhai hynny a ddechreuwyd cyn penderfyniad y fforwm gwneud penderfyniadau'n cymryd gormod o amser i'w cwblhau, gan adael gwneud penderfyniadau neu gynllunio heb wybodaeth ddigonol.

**Fframweithiau asesu lleol**

Roedd pob tîm troseddau ieuenctid (YOT) yr ymwelom â nhw'n mabwysiadu dull ychydig yn wahanol i asesu. Roedd y mwyafrif wedi datblygu'u dulliau asesu byr. Roeddent yn ystyried y rhain i fod yn fwy cymesur nag Asset Plus[28] i anghenion gwarediadau tu allan i'r llys, lle roedd angen i'r broses fod yn gyflym ac roedd swm y gwaith ymyrraeth i'w gyflwyno'n aml yn gyfyngedig. Tra bod Asset Plus wedi'i lunio i fod yn ddringadwy i amgylchiadau achos unigol, nid oedd yn ddigonol felly ar gyfer cynifer o'r achosion a arolygwyd gennym.

Roedd gan bob un o'r fframweithiau asesu a ddatblygwyd yn lleol a welwyd gennym gryfderau sylweddol. Roedd eu graddfa'n gymesur ag anghenion yr achosion unigol. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r fframweithiau wedi'u datblygu'n ddigonol eto fel asesiadau annibynnol byr. Roedd diffygion cyffredin yn cynnwys: prinder datganiad clir am unrhyw risg o niwed i eraill neu faterion diogelwch a lles a oedd yn gymwys yn yr achos; prinder ystyriaeth y cysylltiadau rhwng ymddygiadau a'r ffactorau a nodwyd mewn asesiadau eraill gydag ymddygiad troseddol ac ymataliaeth; a phrinder proses ddwysáu glir ar gyfer achosion lle roedd yr asesiad cychwynnol wedi nodi'r angen am asesiad manylach, megis trwy Asset Plus.

Roedd rhai timau troseddau ieuenctid (YOTs) eisiau ehangu'r amrywiaeth o achosion lle roeddent yn gwneud asesiad, ond roeddent yn ystyried fframwaith asesu Asset Plus yn rhy feichus i gyfiawnhau'r adnodd. Roedd eraill yn ei chael yn anodd bod ar war y gwaith asesu, yn bennaf oherwydd eu hymrwymiad i Asset Plus.

Mewn sawl achos, roedd llawer o wybodaeth yn barod am y plentyn mewn asesiadau neu gynlluniau eraill. Mewn achosion o'r fath, dylai'r canolbwynt fod ar ddeall a dadansoddi perthnasedd y wybodaeth hon i ymddygiad ac ymataliaeth droseddol, a chysylltu â ffynonellau eraill o wybodaeth lle y bo'n briodol. Dylai dullliau asesu allu gael eu ffurfweddu'n lleol i gyflawni hyn. Nid oedd angen yr ymdrech weithiau a roddwyd i gasglu'r holl wybodaeth hon i mewn i fframwaith

---

[28] Asset Plus yw'r fframwaith asesu a chynllunio safonol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) i'w ddefnyddio gan y timau troseddau ieuenctid (YOTs)

asesu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT), gan na fydd mwyafrif y plant hyn yn ymwneud yn bellach â'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn dilyn y gwarediad cyfredol tu allan i'r llys.

Roedd asesiad Asset Plus wedi'i gwblhau mewn dros chwarter yr achosion a arolygwyd gennym. Yn y mwyafrif, roedd y rhain wedi'u gwneud yn dda. Roedd staff a oedd wedi cwblhau Asset Plus fel arfer yn brofiadol hefyd mewn gwneud hyn ar gyfer gwaith wedi'r llys, ac roeddent yn deall y fframwaith yn dda. Roeddent hefyd yn ystyried ei fod yn cymryd gormod o amser ar gyfer natur a maint llawer o'r gwaith gwarediad tu allan i'r llys.

Mae'n ymddangos yn rhesymol defnyddio fframwaith asesu cynhwysfawr unwaith y ceir arwyddion bod ymddygiadau wedi'u sefydlu, ymrwymiad â'r system cyfiawnder troseddol yn dod yn fwy aml neu lle y nodwyd cymhlethdodau. Nid yw mwyafrif yr achosion gwarediad tu allan i'r llys, yn arbennig y rhai hynny a ystyrir ar gyfer gwarediadau heb fod yn statudol megis datrysiadau cymunedol, yn cyrraedd y trothwy hwnnw'n aml.

**Cyfarwyddyd Asset Plus**

Gellir darllen arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) i ganiatáu hyblygrwydd wrth ddefnyddio dulliau asesu sydd eu hangen, gan nad yw'r union amgylchiadau lle mae asesiad Asset Plus wedi'i fandadu'n bodoli tan fod y penderfyniad wedi'i wneud, ond am rybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs). Roeddem yn deall, fodd bynnag, pam bod rhai timau troseddau ieuenctid (YOTs) a'u byrddau rheoli'n teimlo'n anghyfforddus gyda defnyddio'r dehongliad hwn oherwydd eu bod yn pryderu y gallai peidio â defnyddio'r fframwaith asesu a gymeradwywyd effeithio lefel y cyllid grant roeddent yn ei derbyn.

Yn ein barn, roedd gan bob tîm troseddau ieuenctid (YOT) a oedd yn defnyddio dull asesu lleol resymau cadarn a diffynadwy dros wneud hynny.

**Amrywiaeth**

Roedd sylw da i fynd i'r afael â ffactorau amrywiaeth yn ystod asesu. Roeddem yn pryderu, fodd bynnag, am ychydig o adegau lle na roddwyd ystyriaeth ddigonol i baru rheolwr yr achos â'r plentyn. Pan oedd merched ifanc agored i niwed yn cael eu neilltuo i reolwyr achos a oedd yn ddynion, gallai hyn fod wedi'u gwneud yn llai parod i fod yn agored am anawsterau sensitif yn eu bywydau.

**Effaith asesiadau amserol**

Lle roedd asesu wedi'i gynnal cyn i'r penderfyniad gwarediad gael ei wneud ac wedi golygu cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng yr aseswr a'r plentyn, roedd hyn yn cynyddu tebygolrwydd ymgysylltu ag ymyriadau, ac yn golygu y gallai penderfyniad gwarediad ystyried y tebygolrwydd a aseswyd o'r plentyn yn ymgysylltu'n wirfoddol â gwaith i gefnogi'u hymatal rhag troseddu.

Roedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) a oedd yn cyflawni asesiad cynnar yn gwneud hynny drwy brosesau gweinyddol effeithiol i wneud apwyntiadau, a oedd fel arfer drwy ymweliad â'r cartref. Roedd un neu fwy o ymweliadau cartref yn cael eu defnyddio i hysbysu'r asesiad mewn 86% o achosion, sy'n dystiolaeth gymhellol bod hyn yn gyfraniad pwysig i ddeall y gall yr achos gael ei gyflawni, wrth weithio hyd yn oed i amserlenni byr iawn. Roedd natur wirfoddol sawl gwarediad tu allan i'r llys yn golygu bod cyflawni'r ymgysylltiad cynnar hwn yn arbennig o werthfawr.

**Adolygiadau**

Roedd angen mwy o sylw'n aml i adolygu'r asesiad, gan gynnwys unwaith roedd ymyrraeth y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi dod i ben, fel y byddai gwybodaeth ar gynnydd ac ymgysylltiad ar gael os byddai'r plentyn yn wybyddys i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) eto yn y dyfodol.

**Enghreifftiau o arfer da - delio â bod ym meddiant cyllell**

Yn Leeds, roedd Zak, bachgen 11 mlwydd oed, wedi derbyn rhybuddiad amodol am fod ym meddiant cyllell. Eid i'r afael â bod ym meddiant cyllell yn uniongyrchol yn yr ymyriadau gydag ef. Roedd rheolwr yr achos, fodd bynnag, yn sylweddoli bod troseddu Zak yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd yn teimlo'n ddiogel fel dioddefwr bwlio. Roedd rheolwr yr achos felly wedi gweithio gyda mam Zak i ddatblygu cynllun diogelwch, a'i atgyfeirio at grŵp cefnogi a oedd wedi'i helpu i adeiladu hunanbarch a strategaethau ymdopi mwy priodol. Roedd tystiolaeth argyhoeddiadol bod Zak wedi ymateb yn gadarnhaol i'r gwaith hwn, a bod ei debygolrwydd o droseddu yn y dyfodol wedi'i leihau.

Yn Swydd Northampton, roedd Lee hefyd wedi derbyn rhybuddiad amodol. Gan nad oedd yn deall effaith bosibl cario cyllell, defnyddiodd rheolwr yr achos chwarae rôl. Gofynnodd i Lee ddal pen a'r hyn y byddai'n ei wneud gydag ef i ymosod arno. Ailadroddodd hyn wedyn gyda Lee'n dal mwg. Roedd hyn yn rhoi cyfle i reolwr yr achos drafod sut roedd cario cyllell yn ei gwneud yn fwy tebygol i gael ei defnyddio ac y byddai'n fwy peryglus. Roedd yn fodd syml ond effeithiol i wneud y drafodaeth yn fwy real i Lee, a oedd yn gallu myfyrio'n hwyrach ynghylch sut roedd wedi'i helpu.

## *6.2 Cynllunio*

Roedd cynllunio'n cael ei wneud ac ymyriadau'n cael eu cynnig ymhob achos bron lle roedd angen hyn. Roedd hyn yn gymesur â natur y gwarediad tu allan i'r llys ymhob achos bron, ond roedd ansawdd y cynllunio'n ddigon da yn hanner yr achosion yn unig a arolygwyd gennym.

Weithiau, siarad gwag oedd egwyddorion cynllunio da gyda phlant, oherwydd natur fer gwarediad tu allan i'r llys, hyd yn oed gan bobl a fyddai'n mabwysiadu dull cadarnhaol tuag at gynllunio mewn achosion wedi'r llys. Roedd y cynllunio a oedd yn cael ei gofnodi'n digwydd yn rhy aml ar wahân i'r plentyn. Weithiau roedd yn cael ei gofnodi fel camau gweithredu i'w gwneud i, neu gyda'r plentyn. Nid oedd yn disgrifio'r canlyniadau, neu'r newid roedd eu hangen yn aml.(Gweler hefyd adran 6.5)

Roedd cynllunio yr ymgymerwyd ag ef yn aml yn digwydd tu allan i'r asesiad ffurfiol a'r broses cynllunio, nad oeddent yn cydymffurfio â'r normau ymarfer a dderbynnir, gan gynnwys y rhai i'w gweld yn gynyddol mewn gwaith wedi'r llys.

### Risg o niwed, diogelwch a lles

Canfuom gynllunio digonol i fynd i'r afael â risg o niwed i eraill mewn ychydig dros hanner yr achosion lle roedd ei angen, ac i fynd i'r afael â diogelwch a lles y plentyn mewn o dan ddwy ran o dair o achosion lle y bo angen. Roedd y cyfle i gyflwyno ymyriadau cysylltiedig â niwed yn gyfyngedig mewn sawl gwarediad tu allan i'r llys, ond dylid bod wedi'u hystyried o hyd. Yn yr un modd, os yw pryderon diogelwch a lles wedi'u nodi dylid cael cynllun i fynd i'r afael â'r rhain, a all mewn achosion gwarediad tu allan i'r llys fod yn aml drwy atgyfeirio i asiantaethau partner ar gyfer gwaith tymor hwy.

### Dylai cynlluniau fod yn ystyrlon i blant

Nid oedd llawer o gynlluniau'n ystyrlon i blant neu'n disgrifio'r canlyniadau dymunol a sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni mewn iaith roeddent yn debygol o'i deall. Mewn achosion rhybuddiadau atebol ieuenctid (YCC), dylai'r amodau a gytunwyd fod y cynllun ymyrraeth a gytunwyd yn yr achos hwnnw, ond yn anaml roeddent yn cael eu cyflwyno mewn fformat a oedd yn ystyrlon i'r plentyn neu'n eu helpu i ddeall yr hyn roeddent yn cesio'i gyflawni, yn hytrach na phrosesau'n unig roedd rhaid iddynt gydymffurfio â nhw.

### Dylai cynlluniau ganolbwyntio ar ymatal

Lle bo angen ymyriadau mewn gwaith tu allan i'r llys dylent ganolbwyntio ar adferiad a gwneud iawn lle bynnag y bo'n briodol, yn hytrach na bod yn gosbol, ac felly gefnogi ymatal gan y plentyn. Nid oedd digon o gynlluniau'n cwrdd â'r safon hon, gyda llawer yn canolbwyntio'n ormodol ar y

ffactorau uniongyrchol a oedd yn arwain at yr ymddygiad troseddol, yn hytrach na'r rhai hynny a allai gyfrannu at ymatal.

**Integreiddio gyda gwaith wedi'r llys**

Arolygwyd ychydig o achosion gennym lle roedd y gwarediad tu allan i'r llys yn cael ei gynnal, yn briodol, yn gyfochrog â chyfnod o oruchwyliaeth statudol yn dilyn euogfarn yn y llys am droseddau eraill. Roedd yn gadarnhaol bod cynllunio mewn achosion o'r fath wedi'i integreiddio gyda'r cynllunio goruchwylio statudol.

**Ysgogiad i ymgysylltu â'r tîm troseddau ieuenctid (YOT)**

Roedd yn gadarnhaol, unwaith roedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi dechrau ymgysylltu â'r plentyn, fod gwaith ysgogol i'w hannog i weithio gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn dda. Disgrifiodd un rheolwr achos ei ddull i gynllunio fel "*mae angen i chi eu hystyried fel unigolyn ifanc sydd wedi gwneud camsyniad ac mae angen i chi weithio gyda nhw i nodi sut i'w helpu i osgoi gwneud y camsyniad hwnnw eto cyn iddynt dderbyn cofnod troseddol, yn hytrach na'u hystyried fel troseddwr.*"

## *Cyflwyno'r* gwaith

Unwaith i dimau troseddau ieuenctid (YOTs) gael y cyfle ar gyfer gwaith ymyrraeth gyda phlant, roedd yn dda'n gyffredinol. Roedd yn aml yn canolbwyntio ar ddulliau a oedd yn fwyaf tebygol o arwain at ymatal rhag troseddu ac roedd wedi'i deilwra i anghenion plant unigol. Roedd hyn yn dangos bod rheolwyr achos yn deall yr hyn oedd angen ei wneud i helpu plant i ymatal rhag troseddu, er bod diffygion mewn cynllunio a gofnodwyd.

Roedd digon o waith o ansawdd da i gefnogi ymatal rhag troseddu mewn mwy na thri chwarter o achosion lle roedd hyn wedi'i gyflwyno. Nid oedd digon o blant, fodd bynnag, wedi ymgysylltu â'r gwaith hwn yn wirfoddol. Fel a drafodwyd gennym mewn man arall, pan oedd timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cyflawni lefelau uchel o ymgysylltiad â phlant nid oedd hyn ar hap yn unig.

Roedd y cydbwysedd rhwng gwaith i atal troseddu, rheoli risg o niwed i eraill a mynd i'r afael â diogelwch a phryderon lles yn briodol yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd digon o sylw wedi'i roi i fynd i'r afael ag amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol posibl mewn 90% o achosion lle ymgymerwyd â gwaith.

Ymhob un bron o'r holl achosion angenrheidiol, roedd rhieni a gofalwyr wedi ymrwymo'n dda yn y gwaith, gan roi bob cyfle eu bod yn parhau i gefnogi'r plentyn yn dda unwaith bod yr ymrwymiad gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi dod i ben.

**Enghraifft o arfer da – dyfalbarhad mewn cadw cyswllt**

Yn Leeds, derbyniodd Mizpah rybuddiad amodol am ddwyn o'r siop lle roedd yn gweithio. Roedd ei mam yn byw dramor ac yn sâl, ac roedd ei theulu eisiau i Mizpah ddychwelyd adref i ymweld â'i mam. Roedd rheolwr yr achos a oedd yn ymwybodol o'r risg bosibl a oedd yn gysylltiedig â hyn, wedi sicrhau bod dilysrwydd y sefyllfa'n cael ei wirio, a bod Mizpah wedi'i diogelu. Roedd disgwyl i Mizpah ddychwelyd i Loegr mewn tua dau fis. Roedd yr achos wedi parhau'n agored tra bod Mizpah i ffwrdd ac roedd rheolwr yr achos wedi cadw mewn cysylltiad â hi drwy e-bost i'w hatgoffa am yr angen i gydymffurfio â'r rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC), a'i hysgogi i ailddechrau gwaith arno cyn gynted â'i bod yn dychwelyd adref.

**Ymyriadau**

Roedd pob tîm troseddau ieuenctid (YOTs) yn rhoi mynediad i blant ar warediadau tu allan i'r llys i'r amrywiaeth lawn o ymyriadau a gwasanaethau ar gael i achosion wedi'r llys, ac roedd rhai timau

troseddau ieuenctid (YOTs) hefyd wedi datblygu ymyriadau penodol. Er enghraifft, roedd gan Swydd Durham ymyrraeth fer, gyfeillgar i blant i helpu plant i ddeall canlyniadau ymddygiad troseddol parhaus. Roedd hyn ar gael ar liniaduron y gweithiwr achos ac roedd yn aml yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r gwaith asesu cyn gwarediad. Roedd yn ffordd effeithiol o gynyddu derbyn yr ymyriadau a defnyddio'r cyfle i ysgogi plant. Gellid defnyddio ymgysylltiad y plentyn hefyd i hysbysu'r penderfyniad ar y canlyniad mwyaf addas.

Roedd gan dimau troseddau ieuenctid (YOTs) eraill amrywiaeth o ymyriadau creadigol ar gyfer gwaith gwarediad tu allan i'r llys. Er enghraifft, roedd Swydd Northampton yn defnyddio dargyfeiriad iechyd meddwl ac roedd gan Swydd Gaerloyw brosiect dargyfeirio canabis, a oedd yn cael eu defnyddio fel dewisiadau eraill i ddatrysiad cymunedol (CR). Eu nod oedd ymgysylltu'r plentyn â'r gwasanaethau angenrheidiol, heb ganlyniad cyfiawnder troseddol yn cael ei gofnodi.

Yn Leeds, roedd pecynnau ymyrraeth cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno o fewn datrysiadau cymunedol, wedi'u cefnogi gan ddatblygiad cynllun ymyrraeth a gytunwyd â'r plentyn. Tra bod angen gofal bod maint y gwaith yn gymesur â disgwyliadau datrysiad cymunedol, mae'r profiad yn Leeds ac mewn mannau eraill yn dangos nad yw natur wirfoddol datrysiad cymunedol yn rhwystr i gyflwyno'r gwaith sylweddol sydd ei angen i leihau troseddu - os oedd ymdrech ddigonol wedi'i rhoi i ysgogi'r plentyn i ymgysylltu ag ef. Roedd ymyriadau yn Leeds yn aml yn canolbwyntio ar adeiladu sgiliau a gwytnwch.

**Ymrwymiad swyddogion heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT)**

Mewn sawl achos, roedd swyddogion heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) hefyd yn cymryd rhan yn briodol mewn cyflwyno ymyriadau yn arbennig y rhai hynny oedd yn ymwneud â throseddau cyllell neu agweddau eraill o risg o niwed i eraill, neu lle gallai eu hymrwymiad gefnogi ysgogi'r plentyn i ymgysylltu â'r ymyriadau.

**Enghraifft o arfer da - gwaith mewn achosion heb ddioddefwr uniongyrchol**

Roedd Surrey'n defnyddio proses 'datganiad o edifeirio a myfyrio' mewn achosion lle nad oedd dioddefwr y gellid ei nodi ar gyfer ymyrraeth adferol bosibl. Roedd hyn yn galluogi'r plentyn i ddangos eu dealltwriaeth o effaith a chanlyniadau eu hymddygiad.

**Dioddefwyr a chyfiawnder adferol**

Roedd y graddau roedd dioddefwyr yn manteisio ar y cyfle i dderbyn gwasanaethau gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT) yn amrywio'n sylweddol. Canfuom bethau sy'n amlwg yn debyg i'r canfyddiadau o'n hadroddiad ar orchmynion atgyfeirio.[29] Yno adroddom nad oedd ymrwymiad y dioddefwr gymaint yn ymateb i'r adnoddau ar gyfer gwaith gyda'r dioddefwr - gyda phrinder adnoddau'n aml yn cael ei adrodd fel rheswm am y nifer fach oedd yn derbyn - ond yn fwy i ymrwymiad timau troseddau ieuenctid (YOT) a staff i sicrhau bod gan ddioddefwyr gyfle go iawn ac amserol i benderfynu a oeddent am ddefnyddio'r gwasanaethau, a gwnaethant beth bynnag oedd ei angen i hwyluso hynny. Er yr amserlenni byr ar gyfer gwaith gwarediad tu allan i'r llys, roedd rhai timau troseddau ieuenctid (YOT) yn dal i gyflawni ymyriadau adferol da, gan gynnwys cynadleddau adferol llawn. Roedd Swydd Durham a Surrey'n enghreifftiau da o hyn.Dywedodd un plentyn wrthym: "*Ces i un cyfarfod â'r [dioddefwr]. Roedd yn dda. Gwnes i hynny'n fwy er ei fwyn ef na fi. Doeddwn i ddim eisiau iddo fod yn ofnus.*"

---

[29] Arolygiaeth Prawf EM, *Arolygiad thematig o orchmynion atgyfeirio*?, Gorffennaf 2016.

**Enghraifft o arfer da - cyfiawnder adferol gyda dioddefwr corfforaethol**

Yn Southampton, roedd merch wedi derbyn rhybuddiad amodol yn dilyn difrod i ddodrefn stryd. Nid oedd y cwmni a oedd yn berchen arno eisiau cwrdd â hi ond roeddent am gymryd rhan mewn cyfryngu drwy weithiwr y dioddefwr i'w helpu i ddeall effaith ei hymddygiad ar y cwmni a'r gymuned ehangach, ac i dderbyn ei hymateb. Ymatebodd yn gadarnhaol, roedd clywed persbectif y cwmni wedi'i helpu. Datblygodd ddealtwriaeth dda o effaith ehangach ei hymddygiad, sylweddolodd ei bod wedi bod yn gwneud dewisiadau gwael am sut roedd yn ymddwyn, ac edifarhaodd am ei hymddygiad. Roedd ei hagweddau ac ymddygiad wedi gwella'n sylweddol. Pan ofynnwyd iddi beth allai'i wneud i wella pethau, dywedodd yr hoffai ymddiheuro. Roedd y cwmni'n fodlon derbyn llythyr, a dywedodd ei fod yn falch i'w dderbyn a chlywed am gymaint o gynnydd roedd wedi'i wneud ers y drosedd.

**Cynllunio ymadael**

Roedd cynllunnio ymadael yn ddigon da mewn pedair rhan o bump o'r achosion a arolygwyd gennym. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion gwarediad tu allan i'r llys, gan fod y cyfle i dîm troseddau ieuenctid (YOT) gymryd rhan yn fyr iawn yn aml, ac felly, lle y bo'n briodol dylid gwneud plant yn ymwybodol o neu'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill a allai weithio gyda nhw yn y tymor hwy. Yn Surrey, roedd yr un rheolwr achos a oedd wedi gweithio gyda phlentyn ar ymyrraeth adferol ieuenctid yn parhau, lle y bo angen, i weithio gyda nhw fel aelod o Wasanaeth Teulu Surrey unwaith ei fod wedi dod i ben.  Roedd hyn yn gyfle pwysig ar gyfer parhad.

**Enghraifft o arfer da - paratoi cyfle ar gyfer gwaith iechyd emosiynol yn y dyfodol**

Yn Sir y Fflint, roedd Lucy wedi derbyn rhybuddiad amodol ieuenctid yn dilyn dwyn o archfarchnad. Roedd y rheolwr achos wedi asesu bod ganddi broblemau tymor hir yn ei bywyd a oedd angen eu nodi a mynd i'r afael â nhw. Roedd Lucy wedi ymwneud â gwasanaethau partner ond nid oedd wedi teimlo ei bod yn gallu datgelu ei phroblemau. Roedd rheolwr yr achos yn cyfaddef ei bod yn annhebygol y byddai Lucy'n barod i ddelio â'r rhain yn ystod cyfnod y rhybuddiad amodol. Trefnodd felly, fel rhan o'r cynllunio ymadael, i Lucy gael ei neilltuo i weithiwr tu allan i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) a oedd â sgiliau cynghori arbenigol, fel y gallai Lucy barhau'r gwaith gyda hi tra ei bod yn gwneud ei hun yn barod i ddatgelu'i phroblemau.

## *6.4 Canlyniadau cychwynnol*

Roedd timau troseddau ieuenctid (YOT) a rheolwyr achos unigol sy'n pwysleisio ymgysylltiad cynnar gyda phlant, ac yn ymgymryd â gwaith ysgogol cynnar gyda nhw i gymryd rhan mewn ymyriadau gwirfoddol, yn cyflawni asesiad gwell o lawer, a chyfraddau uwch o ymrwymiad gwirfoddol yn y gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roeddent yn cwrdd â'r plentyn ar gyfer asesiad cychwynnol cyn i benderfyniad y gwarediad gael ei wneud, a gyda'r bwriad o'r asesiad yn hysbysu'r penderfyniad hwnnw.

Roedd digon yn cael ei wneud i gadw'r plentyn yn ddiogel mewn 91% o achosion lle roedd angen camau gweithredu penodol, ac roedd digon o sylw i ganlyniadau iechyd a lles mewn 90% o achosion lle y bo angen. Gellid bod wedi gwneud mwy, fodd bynnag, o fewn disgwyliadau rhesymol gwarediad tu allan i'r llys, i reoli'r risg o niwed i ddioddefwyr adnabyddadwy. Roedd angen mwy o sylw i ddioddefwyr yn ystod cynllunio.

Unwaith roedd ymyrraeth wedi'i chyflwyno, roedd tystiolaeth bod 57% o blant a oedd yn derbyn rhybuddiad yn llai tebygol o droseddu nag oeddent cyn hynny. Roedd hyn hefyd yn wir am bedair rhan o bump y rhai hynny a oedd wedi derbyn datrysiad cymunedol a oedd wedi cynnwys ymyrraeth - ffigwr sy'n creu argraff o ystyried pa mor fyr roedd sawl un o'r ymyriadau. Roedd y ddau ffigwr yn well na'r hyn rydym yn ei ganfod yn aml mewn gwaith wedi'r llys.

Roeddem hefyd wedi asesu a allai popeth y gellid bod wedi'i gyflawni'n rhesymol gyda'r plentyn o fewn ffiniau gwarediad tu allan i'r llys fod wedi'u cyflawni, hyd yn oed os nad oedd wedi arwain hyd yn hyn at ostyngiad y gellid ei nodi yn eu tebygolrwydd o droseddu. Roedd hyn yn wir mewn 79% o achosion datrysiad cymunedol, a dwy ran o dair o achosion rhybuddiad, lle roeddem yn gallu gwneud dyfarniad. Roedd 5% o blant yn unig yn yr achosion a arolygwyd gennym wedi derbyn gwarediad pellach tu allan i'r llys, neu rybuddiad, ers cychwyn arolygu'r gwarediad.

**Enghraifft o arfer da - mynd i'r afael ag anawsterau addysgol yn llwyddiannus**

Roedd Amy wedi derbyn rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC) am ddwyn, ac roedd ganddi droseddau tebyg blaenorol. Roedd yn dod o gefndir Teithwyr. Roedd wedi ymddieithrio o'r coleg ac wedi colli ei lle. Tra'n gweithio gydag Amy, roedd rheolwr yr achos yn cydnabod nad oedd hi eisiau troseddu bellach ac roedd ganddi uchelgais i fod yn driniwr gwallt. Roedd rheolwr yr achos wedi gweithio gyda rhieni Amy i'w helpu i gydnabod ei huchelgais a chefnogi Amy, a gweithio gyda'r gwasanaeth cefnogi Teithwyr i gael help i ail-ymgysylltu Amy â'r coleg, ac roedd wedi cwrdd â'r coleg i ddod o hyd i ffordd ymlaen. Yn dilyn yr ymdrechion hyn, nid yn unig roedd y coleg wedi derbyn Amy'n ôl ond roedd hefyd wedi rhoi gwersi a chefnogaeth ychwanegol i'w helpu i wybod am y gwaith roedd wedi'i golli. Roedd Amy wedyn wedi'i derbyn ar y cwrs lefel 2 ac wedi'i hymgysylltu'n llawn â'i haddysg. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o droseddu pellach.

Roedd sylw da'n cael ei roi i gydymffurfio ag amodau'r rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) gyda phlant yn cael eu dwyn i gyfrif yn briodol am eu hymlyniad at y rhain. Canfuom fod 88% o blant yn cydymffurfio, o leiaf yn sylweddol, ag amodau'r rhybuddiad amodol ieuenctid (YCC). Mae'r uchod, a chanlyniadau cadarnhaol eraill rydym yn eu disgrifio yn y bennod hon, yn nodi sgiliau dealltwriaeth ac ymgysylltu da'r rhan fwyaf o'r rheolwyr achos roeddem wedi cyfarfod â nhw.

**Enghraifft o arfer da - gwella dealltwriaeth plentyn**

Yn Ne Swydd Gaerloyw, roedd Chris wedi derbyn rhybuddiad amodol am ymosodiad rhywiol. Roedd rheolwr yr achos yn pryderu am y tebygolrwydd y byddai Chris yn cydymffurfio, oherwydd ei gywilydd ac iselder am yr hyn a oedd wedi digwydd. Roedd hi wedi datblygu cytundeb unigol o ymgysylltu ag ef a oedd yn cynnwys yr un pethau â dogfennaeth y rhybuddiad amodol. Roedd yn mynd i'r afael yn benodol â rhai o'r meysydd roeddent yn poeni fwyaf amdanynt - er enghraifft, cytunwyd bod "Does gen i ddim amynedd" yn annerbyniol, ac roedd wedi cytuno y byddai'n "gwneud fy ngorau glas" a "chytuno i ofyn cwestiynau." Roedd Chris yn cydymffurfio'n llawn ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â rheolwr yr achos trwy gydol y gwaith. Roedd cytundeb yr unigolyn ifanc yn enghraifft dda o sut y gall dogfennaeth ffurfiol gael ei gwneud yn ystyrlon i blant.

Roedd rheolwr yr achos hefyd yn poeni p'un a oedd Chris yn gallu deall cysyniad caniatâd. Roedd hi wedi ymchwilio ffyrdd gwahanol i ddatbygu hyn a dod o hyd i adnodd YouTube, *Consent is like a cup of tea*, https://www.youtube.com/watch?v=fGoWLWS4-kU . Roedd hyn yn ymateb yn uniongyrchol i lefel dealltwriaeth Chris ac yn effeithiol i'w helpu i wella hyn.

Roedd plant, a rhieni/gofalwyr, y siaradom â nhw, heb eithriad, yn hapus gyda'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT). Dywedodd sawl un eu bod yn teimlo ei fod yn werthfawr, gan ddyfynnu'r cyfle'n aml i ddeall ymddygiadau'r plentyn nad oeddent fel arall yn ymwybdol ohonynt. Roeddent wedi rhoi rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r gwahaniaeth roedd gwaith gyda'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi'i wneud i blant unigol.

## 6.5 Llais y plentyn

Nid oedd llais y plentyn yn cael ei glywed yn ddigon eglur mewn asesiad, gwneud penderfyniadau neu gynllunio. Roedd yr aseswr weithiau'n cynnal asesiadau neu sgrinio byr cychwynnol heb fod wedi cyfarfod â'r plentyn. Canfuom dystiolaeth annigonol y gofynnwyd i'r plentyn neu'u rhiant/gofalwr yn benodol am fynegi eu barn ar yr achosion am, a datrysiadau posibl i'w hymddygiad troseddol.

Yn yr un modd, gyda gwneud penderfyniadau, roedd yr unig wybodaeth am lefel cydnabyddiaeth y plentyn a rhesymau am eu hymddygiad weithiau'n gyfyngedig i'r hyn a recordiwyd yng nghyfweliad yr heddlu lle derbyniwyd cyfrifoldeb; nid oedd unrhyw waith dilynol i brofi hyn a deall unrhyw achosion a oedd wrth wraidd, neu i brofi tebygolrwydd y plentyn yn ymgysylltu ag ymyrraeth wirfoddol, i hysbysu penderfyniad y gwarediad.Roedd rhai argymhellion ar gyfer ymyriadau, felly, wedi'u gwneud mewn fforymau gwneud penderfyniadau heb gyfeirio at asesiad a barn y plentyn.

Roedd cynllunio a gofnodwyd ar gyfer pa wasanaethau neu ymyriadau a fyddai'n cael eu cyflwyno, os o gwbl, yn aml yn digwydd heb ofyn i'r plentyn neu'u rhiant/gofalwr am eu barn am bryderon a gobeithion y plentyn, ac yn fwyaf pwysig am yr hyn a fyddai'n fwyaf tebygol o helpu'r plentyn i osgoi troseddu yn y dyfodol. Felly, roedd y cynllun weithiau'n cael ei gyflwyno i'r plentyn heb iddynt fod wedi gallu dylanwadu arno. Roedd hyn yn aml yn cael ei gymhlethu lle nad oedd y cynllun ysgrifenedig yn ddigon eglur i'r plentyn am ba ganlyniad roedd ei angen, a sut y byddai'n cael ei gyflawni, weithiau yn lle hynny'n rhestru'r ymyriadau neu gamau gweithredu i'w cymryd.

Mae ymgysylltiad plentyn mewn gwaith gwarediad tu allan i'r llys (ond am rybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) yn wirfoddol ac felly ni ellir ei orfodi. Mae felly'n arbennig o bwysig bod clywed ac ymateb i farn plant - arfer a ddisgwylir mewn pob maes o waith plant - yn cael blaenoriaeth yn yr achosion hyn.

## 6.6 Goblygiadau derbyn gwarediad tu allan i'r llys

Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi bod goblygiadau derbyn gwarediad tu allan i'r llys yn cael eu deall yn ddigonol gan blant a'u rhieni/gofalwyr, i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn am y graddau roeddent yn cydnabod cyfrifoldeb, a ph'un ai derbyn y canlyniad.

Ar gyfer dedfrydau tu allan i'r llys, mae deddfwriaeth yn glir am pryd mae'r rhain wedi dod i ben. Mae'r graddau y gellir datgelu gwarediadau tu allan i'r llys yn ddiamod yn y dyfodol (er wedi'u cefnogi gan arweiniad statudol). Mae hyn yn gymwys i'r ddau warediad hynny - rhybuddiadau ieuenctid (YCs) a rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) - sydd wedi'u cofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC); a chanlyniadau sydd wedi'u cofnodi fel datrysiadau cymunedol, dim camau gweithredu ffurfiol neu debyg, sydd wedi'u cofnodi ar systemau lleol yr heddlu. Nid oedd llawer o'r staff a'r plant hynny y siaradom â nhw'n sylweddoli hyn yn llawn, yn arbennig ar gyfer gwarediadau megis datrysiadau cymunedol nad ydynt yn cael eu cofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC).

Roedd pob ffurflen rhybuddiad a rhybuddiad amodol a lofnodwyd gan blant yn cynnwys datganiad am ddatgelu. Nid oedd hyn, fodd bynnag, mewn iaith a oedd yn ddealladwy i blant. Dywedodd plant wrthym eu bod weithiau'n llofnodi'r rhybuddiad i adael yr ystafell cyn gynted â phosibl, heb ddeall y goblygiadau'n llawn. Oherwydd y datgeliad posibl ynghylch unrhyw warediad tu allan i'r llys drwy archwiliadau uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae'n bwysig bod y plentyn yn deall ac yn cael ei gynghori am y rhain yn glir, cyn derbyn y gwarediad.

**Enghraifft o arfer da - sicrhau bod plant yn deall rhybuddiad ieuenctid**

Roedd Swydd Durham wedi datblygu a gweithredu, ar y cyd â phlant, fersiwn gyfathrebu gyfeillgar o'r rhybuddiad ieuenctid (YC). Cytunwyd ar y cyfieithiad gyda chyfreithwyr Cwnstabliaeth Durham. Roedd rheolwyr achos yn ei defnyddio gyda phlant cyn iddynt dderbyn y rhybuddiad gan yr heddlu, fel eu bod yn deall yn llawn yr hyn y byddai'n ei olygu. Roedd ar gael hefyd fel dolen ar gyfer ffôn clyfar neu gyfrifiadur. Roedd gan swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) y cyfieithiad hwnnw wrth gyflwyno'r rhybuddiad, i sicrhau bod y plentyn yn gallu cymryd rhan yn llawn, ac yn deall yr hyn y maent yn ei lofnodi.

Mae rhesymau da pam bod angen i'r heddlu ac awdurdodau erlyn gadw gwybodaeth am hanes troseddu'r plentyn. I'r gwrthwyneb, mae tystiolaeth glir (er enghraifft Maruna 2002) am bwysigrwydd cefnogi'r plentyn i ddatblygu barn ddi-drosedd amdanynt eu hunain, ac wrth gwrs mae'n bosibl na fydd cadw gwybodaeth ar gofnod yr heddlu'n helpu i ddatblygu'r ffordd honno o feddwl.

At hynny, dylid gwneud y posibilrwydd yn glir y gellid datgelu gwarediadau tu allan i'r llys o fewn archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn nes ymlaen mewn bywyd. Tra nad oes gan yr unigolyn gofnod troseddol ffurfiol, mae ganddynt hanes troseddu y gellir ei ddatgelu. Gall unigolion yn yr amgylchiadau hyn fod yn aneglur a ddylent gyfeirio ai peidio at y canlyniad mewn ffurflenni swydd a cheisiadau eraill.

### 6.7 Casgliadau a goblygiadau

Mae rhai o'r achosion hyn yn gymhleth, eto canfuom fod rheolwyr achosion fel arfer yn trafod achosion tu allan i'r llys gyda hyder. Roedd y canlyniadau cychwynnol o waith tu allan i'r llys yn gwneud argraff, gyda gwaith ymyrraeth da. Nid oedd y cynllunio ar gyfer hynny'n aml yn eglur, fodd bynnag. Roedd yn aneglur yn aml pa mor dda roedd llais y plentyn wedi'i glywed mewn asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Gellid rhoi mwy o sylw cynharach i ysgogi plant i ymgysylltu â natur wirfodddol rhai gwarediadau tu allan ir llys.

Dylai timau troseddau ieuenctid (YOTs) a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (YJB) gytuno dull i ddefnyddio fframweithiau asesu sy'n cydnabod y materion ymarferol i dimau troseddau ieuenctid (YOTs) sy'n ceisio darparu meintiau mawr o ddarnau byr o waith yn aml, yn ogystal ag amcan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (YJB) i gael dull cyffredin i asesiadau o ansawdd uchel y dylid bod yn gallu eu defnyddio a'u trosglwyddo'n gyson trwy'r holl system cyfiawnder troseddol. Dylai, i'r un graddau, gydnabod natur llawer o waith gwarediad tu allan i'r llys, yn arbennig ar gyfer plant nad ydynt wedi dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn flaenorol neu wedi derbyn gwarediad statudol.

# 7. Darpariaeth gwarediad tu allan i'r llys yng Nghymru a Lloegr

Wrth gynllunio'r arolygiad hwn, daeth yn amlwg fod ychydig iawn o wybodaeth ar gael am amrywiaeth a natur cynlluniau gwarediad tu allan i'r llys yng Nghymru a Lloegr. Roedd Arolygiaeth Prawf EM, felly, wedi gwneud arolwg o dimau troseddau ieuenctid (YOTs) i gasglu data am y rhain i helpu i nodi meysydd addas ar gyfer gwaith maes arolygu, ac i hysbysu dyfarniadau cychwynnol am rai agweddau o'r trefniadau. Mae'r bennod hon yn disgrifio ac yn archwilio'r canfyddiadau o'r arolwg.

### 7.1 Yr arolwg

Roedd arolwg electronig byr wedi'i ddarparu ar gyfer pob rheolwr tîm troseddau ieuenctid (YOT) i'w cwblhau ganddynt ar y cyd â chydweithwyr yn yr heddlu. Derbyniom ymateb gan 139 o feysydd tîm

troseddau ieuenctid (YOT), a oedd yn cynrychioli 90% o'r timau troseddau ieuenctid (YOTs) yng Nghymru a Lloegr.  Rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau yma.

***Strategaeth ac arweinyddiaeth***

Dywedodd bron pob ardal fod gan eu bwrdd rheoli tîm troseddau ieuenctid (YOT) brif rôl yn y blaenoriaethu strategol, cynllunio am a goruchwylio gwaith i ostwng mynediad i'r system cyfiawnder ieuenctid. Er hyn, dywedodd bron un ymhob deg nad oedd gan eu bwrdd rheoli brif rôl o'r fath.

Roedd swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) yn cael ei chydnabod fel un â rôl mewn blaenoriaethu, cynllunio neu gyllido gwaith gwarediad tu allan i'r llys gan bron dwy ran o dair o ardaloedd. Roedd trydedd rhan wedi nodi bod partneriaid yn hytrach na'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuectid (BCI) neu awdurdod lleol wedi gwneud cyfraniad penodol i'r gwaith hwn. Yng Nghymru, roedd Llywodraeth Cymru'n bartner cyllido a blaenoriaethu, yn gyson â'i ddull i weithredu Hawliau'r Plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn disgrifio cynllun lleol a oedd yn mynd y tu hwnt i ofynion lleiafswm arweiniad cenedlaethol. Yn arbennig, dywedodd 44% o ardaloedd y byddent yn disgwyl asesu pob achos a oedd yn cael eu hystyried gan yr heddlu ar gyfer gwarediad tu allan i'r llys, a nododd canran debyg y gellid gofyn iddynt asesu achosion lle roedd yr heddlu'n ystyried cyhuddo'r plentyn. Byddai hanner hefyd yn ymgymryd ag asesiad ar achosion a atgyfeiriwyd o bartneriaid eraill.

***Asesu***

Rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) yw'r unig warediad y mae angen asesiad arnynt cyn bod penderfyniad y gwarediad yn cael ei wneud, eto 71% o ymatebwyr yn unig a ddywedodd eu bod yn gwneud hyn ar gyfer achosion a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs). Dywedodd bron dwy ran o dair y byddai eu hasesiad yn hysbysu penderfyniad ar ail neu rybuddiad ieuenctid (YC)dilynol, 44% ar rybuddiad ieuenctid cyntaf (YC) ac ychydig dros drydedd ran ar achosion a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer datrysiad cymunedol (CR). Dywedodd 12% o dimau troseddau ieuenctid (YOTs) yn unig nad oeddent fyth yn ymgymryd ag asesiad cyn i'r gwarediad gael ei roi - gan wneud arfer o'r fath yr eithriad bellach.  Roedd y cyfle i ymgymryd ag asesiadau i hysbysu gwneud penderfyniadau'n dangos y berthynas gadarnhaol a gwaith ar y cyd rhwng timau troseddau ieuentid (YOTs) a'u heddlu lleol.

***Cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau***

Mae'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ffurfiol ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys gyda'r heddlu lleol, er bod cyfarwyddyd yn annog prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd. Dywedodd dros dri chwarter o ardaloedd fod ganddynt broses gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer pob math o warediad tu allan i'r llys, yr uchaf ar gyfer rhybuddiadau amodol ieuenctid (YCCs) (87%). Dywedodd dros ddwy ran o bump o ardaloedd fod eu gwneud penderfyniadau ar y cyd yn cael eu gwneud o fewn panel ffurfiol, a dywedodd 11% fod eu panel yn cynnwys un neu fwy o wirfoddolwyr cymunedol.

Dywedodd bron dwy ran o dair o ardaloedd fod gan yr heddlu'r unig gyfrifoldeb ar gyfer gwneud penderfyniad datrysiad cymunedol mewn rhai neu'r holl achosion, yn gyson â'r angen i ddatrys achosion addas yn gyflym ac ar y lefel briodol isaf.

**Craffu a goruchwyliaeth**

Dylai gwaith gwarediad tu allan i'r llys fod yn amodol ar oruchwyliaeth leol drwy banel craffu, gyda'r heddlu lleol yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.  Dywedodd bron un mewn pedwar ymatebydd nad oedd panel craffu yn eu hardal.

**Yr aelodaeth fwyaf cyffredin o baneli craffu gwarediad tu allan i'r llys (yn yr**

| ardaloedd hynny lle roedd un), sy'n dangos yr amrywiaeth o bartneriaid a oedd ynghlwm | |
|---|---|
| Yr Heddlu | %93 |
| Tîm troseddau ieuenctid | %90 |
| Dedfrydwyr | %75 |
| Gwasanaeth Erlyn y Goron | %63 |
| Sefydliad dioddefwyr | %45 |
| Aelod cymunedol lleyg | %25 |
| Cynrychiolydd cyfreithwyr yr amddiffyniad | %16 |
| Gwasanaethau plant (yn ychwanegol at y tîm troseddau ieuenctud (YOT) | %10 |
| Cadeirydd annibynnol | %21 |

Disgwylir i dimau troseddau ieuenctid (YOTs) yn gyffredinol fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw anghyfartaledd yn y system cyfiawnder ieuenctid.  Dywedodd bron hanner y timau troseddau ieuenctid (YOTs), er hynny, nad oedd unrhyw waith diweddar wedi bod yn eu hardal i ddatblygu cyfraniad gwarediadau tu allan i'r llys ar ostwng anghyfartaledd.

Mae fframwaith y gwarediad tu allan i'r llys yn disgwyl i ardaloedd fonitro a gwerthuso effaith gwaith gwarediad tu allan i'r llys ar gyfraddau troseddu, ond dywedodd ychydig dros un rhan o ddeg o ymatebwyr nad oeddent yn gwneud hynny. Roedd gan un rhan o chwech o ardaloedd gorff dynodedig lleol i fonitro a goruchwylio gwaith gwarediad tu allan i'r llys, a dywedodd un rhan o ddeg eu bod wedi comisiynu gwerthusiad academaidd allanol neu werthusiad arall. Roedd bron un rhan o bump o ardaloedd yn darparu gwerthusiad cyfnodol i'w swyddfa cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PCC), ac adroddodd bron tri chwarter gynnydd yn eu bwrdd rheoli tîm troseddau ieuenctid (YOT)

Roedd gan leiafswm o ardaloedd yn unig brosesau arferol i ddysgu gwersi o achosion gwarediad tu allan i'r llys lle roedd yr unigolyn yn troseddu wedi hynny.

Yn olaf, dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair o ymatebwyr fod gwaith diweddar wedi'i wneud yn eu hardal i adeiladu neu gynnal dealltwriaeth y cyhoedd neu'r dedfrydwr am neu hyder i ddefnyddio gwarediadau tu allan i'r llys. Mae dealltwriaeth a hyder o'r fath yn bwysig oherwydd eu bod yn gallu hysbysu tebygolrwydd dedfrydwyr yn ailgyfeirio achosion i'w hystyried ar gyfer addasrwydd gwarediad tu allan i'r llys, a gall ddylanwadu ar eu hymateb i blant sy'n ymddangos yn y llys wedi hynny.

## *7.2 Casgliadau a goblygiadau*

Mae gan arweinwyr system cyfiawnder troseddol lleol yn gyffredinol rôl addas i annog, datblygu a goruchwylio gwaith tu allan i'r llys yn lleol.

Mae'r rhan fwyaf ond nid pob cynllun gwarediad tu allan i'r llys yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol lleiafswm, yn eu ehangder yn ogystal â'r cyfle i ddefnyddio asesiadau tîm troseddau ieuenctud (YOT) i hysbysu gwneud penderfyniadau. Mewn sawl ardal, mae trefniadau gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer yr amrywiaeth eang o warediadau tu allan i'r llys, yn arwydd o berthynas gadarnhaol rhwng timau troseddau ieuenctid (YOTs) a'u heddlu lleol.

Mae craffu a monitro lleol yn amrywiol, gydag un mewn pedair ardal yn adrodd nad oes ganddynt banel craffu.

# Cyfeiriadau


Y Coleg Plismona (2013), *Prosecution and Case Management,* gellir ei lawrlwytho o https://www.app.college.police.uk/app-content/prosecution-and-case-management/

Criminal Justice Joint Inspectorates (2010) *A joint inspection of youth crime prevention,* gellir ei lawrlwytho o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/a-joint-inspection-of-youth-crime-prevention/

Criminal Justice Joint Inspectorates (2009) *Exercising Discretion: The Gateway to Justice*, gellir ei lawrlwytho o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/media/exercising-discretion-the-gateway-to-justice-20110609.pdf

Criminal Justice Joint Inspectorates (2014), *Crime-recording: making the victim count*, https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/crime-recording-making-the-victim-count.pdf

Gwasanaeth Erlyn y Goron (2013), *Director's Guidance on Charging, 5th Edition*, gellir ei lawrlwytho o https://www.cps.gov.uk/publications/directors_guidance/dpp_guidance_5.html

Llywodraeth EM (2017), *The Lammy Review,* gellir ei lawrlwytho ohttps://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM (2014), *Crime Recording : making the victim count*, gellir ei lawrlwytho o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/crime-recording-making-the-victim-count.pdf

Arolygiaeth Prawf EM (2016), *Arolygiad thematig o orchmynion atgyfeirio,* gellir ei lawrlwytho o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/referralorders/

Y Swyddfa Gartref (2015), *Statutory disclosure guidance,* gellir ei lawrlwytho o https://www.gov.uk/government/publications/statutory-disclosure-guidance

Maruna, S. (2001) *Making good: how ex-convicts reform and rebuild their lives,* Washington DC: Cymdeithas Seicolegol Americanaidd.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017), *Youth Justice Statistics 2015-16*, gellir ei lawrlwytho o https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2015-to-2016.

Moffitt, T.E. (1993), 'Adolescent-limited and life-course persistent antisocial behaviour. A developmental taxonomy', *Psychological Bulletin* (100): 674-701.

Sampson, R.J. a Laub, J.H. (1993) *Crime in the making: Pathways and turning points through life,* Cambridge MA: Harvard University Press.

Y Cenhedloedd Unedig (1990), *Convention on the Rights of the Child,* gellir ei lawrlwytho o http://www.unhcr.org/uk/4d9474b49.pdf

## Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| Asset Plus | Fframwaith asesu a chynllunio a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu, neu mewn risg o droseddu, sy'n adlewyrchu ymchwil a dealltwriaeth gyfredol o'r hyn sy'n gweithio gyda phlant. |
| System Bureau | Dull i ddargyfeirio plant yn gynnar rhag troseddu a ddatblygwyd yn Abertawe fel partneriaeth rhnwg tîm troseddau ieuenctid (YOT) Abertawe a Heddlu De Cymru. Roedd ei ethos yn seiliedig ar y dull 'plentyn yn gyntaf, dioddefwr yn ail'. Roedd y dull wedyn wedi'i gyflwyno ledled Cymru. Disgwylid i'r plentyn wneud iawn am eu troseddu, a chael cynnig gwasanaethau i'w helpu i osgoi troseddu pellach. Mae'n debyg mewn sawl ffordd i ddull y panel i ddelio â gwarediadau tu allan i'r llys a ddatblygwyd wedi hynny mewn llawer o dimau troseddau ieuenctid (YOTs) eraill. |
| Rheolwr achos | Yr ymarferydd sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli achos plentyn o dan oruchwyliaeth y tîm troseddau ieuenctid. |
| Diogelu plant | Gwaith i sicrhau bod pob cam gweithredu rhesymol wedi'u cymryd i leihau'r risg o blentyn yn dod i niwed. |
| Datrysiad cymunedol | Yn cael ei ddefnyddio mewn troseddau isel eu lefel, yn aml am y tro cyntaf, lle ceir cytundeb anffurfiol, yn aml hefyd yn cynnwys y dioddefwr, am sut y dylid datrys y drosedd. |
| Ymatal | Terfyn ar droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol arall. |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel, yn arbennig i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed.  Mae'n cyflawni'r cyfrifoldeb hwn i raddau helaeth wrth brosesu ceisiadau am archwiliadau cofnod troseddol (archwiliadau DBS) |
| Newydd-ddyfodiaid | Plentyn sy'n derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol statudol (rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad amodol ieuenctid neu euogfarn) am y tro cyntaf. |
| Ymyrraeth | Y gwaith a wneir yn uniongyrchol gyda'r plentyn gyda'r nod o newid eu hymddygiad. |
| Cynllun ymyrraeth | Y rhaglen o waith a luniwyd gan reolwr yr achos ar y cyd â'r plentyn yn amlinellu'r hyn a fydd yn cael ei wneud i gefnogi ymatal. |
| Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 | Darn o ddeddfwriaeth gynhwysfawr sy'n gwneud gwelliannau i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys creu rhybuddiadau ieuenctid a rhybuddiadau amodol ieuenctid, i gymryd lle'r gwarediadau tu allan i'r llys statudol blaenorol ar gyfer plant. |
| Plentyn sy'n derbyn gofal | Plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, o ganlyniad i orchymyn llys neu gytundeb gwirfoddol gyda'r rhieni. |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder | Wedi'i gyhoeddi gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, yn amlinellu'r lefelau cyswllt ac amserlenni isafswm ar gyfer tasgau allweddol yng nghyflwyniad y timau troseddau ieuenctid (YOTs) o orchmynion llys. |

| | |
|---|---|
| Ieuenctid | |
| Gwarediad tu allan i'r llys | Datrysiad trosedd isel ei lefel fel arfer, lle nad yw er lles y cyhoedd i gosbi, drwy ddatrysiad cymunedol, rhybuddiad ieuenctid neu rybuddiad amodol ieuenctid. |
| Partneriaid | Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol a heb fod yn statudol, yn gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth. |
| Comisiynwyr Heddlu a Throsedd | Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gynrychiolydd a etholwyd yn lleol, sy'n gyfrifol ymhlith cyfrifoldebau eraill, am sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol o ardal yr heddlu. Disgwylir iddynt gynhyrchu cynllun heddlu a throsedd lleol cyfnodol. |
| Cynhadledd cyfiawnder adferol | Mae troseddwyr yn dod wyneb yn wyneb â'u dioddefwyr ac yn clywed am effaith eu gweithrediadau'n uniongyrchol. Mae gan ddioddefwyr y cyfle i ddweud wrth droseddwyr sut y maent wedi'u heffeithio. Mae troseddwyr yn ennill empathi a dealltwriaeth am y rhai hynny y maent wedi'u niweidio, a'r cyfle i wneud iawn. |
| Swyddog heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) | Disgwylir i'r heddlu, yn ogystal â phartneriaid statudol eraill, secondio staff i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT). Prif bwrpas swyddog yr heddlu sy'n cael ei secondio yw defnyddio eu sgiliau arbenigol, a chyfrifoldebau gwarantedig, i gefnogi gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT) i geisio gostwng troseddu a diogelu'r cyhoedd.Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar: https://www.gov.uk/government/publications/youth-offending-teams-the-role-of-the-police-officer |
| Rhybuddiad ieuenctid | Rhybuddiad a dderbynnir gan blentyn yn dilyn cyfaddefiad ei fod wedi troseddu lle nad yw'n cael ei ystyried bod er lles y cyhoedd i gosbi'r troseddwr. |
| Rhybuddiad amodol ieuenctid | Yn debyg i rybuddiad ieuenctid, ond gydag amodau'n gysylltiedig y disgwylir i'r plentyn gydymmffurfio â nhw am hyd at y tri mis nesaf. Gall gwrthod cydymffurfio olygu o bosibl y bydd y plentyn yn cael ei erlyn am y drosedd wreiddiol. |
| Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (YJB) | Corff y llywodraeth sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori gweinidogion ar effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol. Mae'n rhoi grantiau ac arweiniad i'r timau troseddau ieuenctid. |
| Matrics ffactor difrifoldeb gwarediad achos troseddwr ieuenctid | Dosbarthu'r rhan fwyaf o droseddau mwyaf cyffredin ar raddfa o 1 (difrifoldeb isel) hyd at 4 (difrifoldeb uchel), yn seiliedig ar ddifrifoldeb y drosedd. Wedi'i fwriadu i gynorthwyo mewn gwneud penderfyniadau erlyn, ochr yn ochr â'r dystiolaeth a ffactorau lliniarol neu ddifrifol. Gellir dod o hyd iddo ar http://cps.gov.uk/legal/assets/uploads/files/Gravity%20Matrix%20May09.pdf |
| Y tîm troseddau ieuenctid (YOT) | Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cael eu hadnabod yn lleol wrth sawl teitl, megis y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (YJS), y gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS), a theitlau generig eraill a all ddangos eu rôl ehangach yn yr ardal leol i ddarparu gwasanaethau i blant. |
| Ymyrraeth adferol ieuenctid | Yr enw am y gwarediad tu allan i'r llys cyn rhybuddiad a ddefnyddir yn Surrey. |

# Atodiad 2: Methodoleg

Cyn arolygu'r fframwaith arolygu, edrychom ar bob tîm troseddau ieuenctid (YOTs) yng Nghymru a Lloegr i ddeall ehangder a natur darpariaeth gwarediad tu allan i'r llys.

Ymgymerwyd â'r gwaith maes mewn saith tîm troseddau ieuenctid (YOTs) yn ystod Gorffennaf ac Awst 2017, yn dilyn methodoleg a beilotwyd ym Mehefin 2017. Dewiswyd y timau troseddau ieuenctid (YOTs) gyda'r bwriad o arolygu amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno gwaith gwarediad tu allan i'r llys.

Y timau troseddau ieuenctid (YOTs) yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolygiad oedd:

Swydd Durham

Sir y Fflint

Leeds

Swydd Northampton

De Swydd Gaerloyw

Southampton

Surrey

Cilgwri (peilot terfynol).

Cyn cychwyn gwaith maes, roeddem wedi adolygu llenyddiaeth ar waith tu allan i'r llys, ymchwil, deddfwriaeth ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Derbyniom ddogfennau polisi allweddol a rhai eraill gan y tîm troseddau ieuenctid (YOT) ac ardaloedd yr heddlu roeddem yn eu harolygu.

Yn ystod gwaith maes archwiliom sampl o achosion ar draws y safleoedd arolygu lle y disgwylid i'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) ymgymryd ag asesiad neu gyflwyno gwaith ymyrraeth. Arolygwyd pob achos lle y bo'n bosibl, ochr yn ochr â'r rheolwr achos dynodedig. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod yr arolygwr yn deall yr achos yn llawn, a bod yr arolygiad hefyd yn dod yn gyfle dysgu ar gyfer rheolwyr achos unigol.  Roedd achosion yn cael eu dewis ar hap gan Arolygiaeth Prawf EM, yn amodol ar roi cydbwysedd a oedd yn adlewyrchu'r mathau o warediad tu allan i'r llys ymhob ardal, a chydbwysedd nodweddion eraill wrth iddynt ymddangos mewn llwyth achosion tîm troseddau ieuenctid (YOT) unigol. Roedd pob achos wedi derbyn eu gwarediad rhwng tri a chwe mis cyn y gwaith maes.

Pan oedd y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi gallu ei drefnu, siaradom â'r dioddefwr, plentyn a rhiant/gofalwr mewn achosion a arolygwyd.

Ymgymerom ag 'archwiliadau realiti' o waith gwarediad tu allan i'r llys gyda swyddogion cymdogaeth, ymateb a charchar. Roeddem hefyd wedi cyfweld â rhai o'u rheolwyr. Lle roedd penderfyniadau gwarediad yn cael eu gwneud gan banel, arsylwom y panel wrth eu gwaith.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ar wahân gennym gydag ymarferwyr, rheolwyr, gweithwyr dioddefwyr a chynrychiolwyr asiantaethau partner a oedd yn ymwneud â gwaith gwarediad tu allan i'r llys.

Roeddem wedi cyfweld cadeirydd bwrdd rheoli'r tîm troseddau ieuenctid (YO), cynrychiolydd yr heddlu ar y bwrdd, Comisiynydd yr Heddlu neu Drosedd neu'u cynrychiolydd, cadeirydd neu

gynrychiolydd o'r panel craffu lleol, rheolwr gwybodaeth y tîm troseddau ieuenctid (YOT) a swyddogion heddlu'r tîm troseddau ieuenctid (YOT) a secondiwyd.

Roeddem wedi cysylltu a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid trwy gydol yr arolygiad.

**Proffil achos:**

Cyfanswm yr achosion a arolygwyd – 112

Rhybuddiad ieuenctid – 31, rhybuddiad amodol ieuenctid – 32, datrysiad cymunedol – 49

Gwryw – 80 (71%), benyw – 32 (29%)

Roedd 97 (87%) o blant yn wyn

24 (22%) o blant yn cael eu cofnodi gan reolwr yr achos fel bod ag anabledd

Roedd awdurdod lleol yn gofalu am 18 (16%) o blant

*NB: Trwy'r adroddiad hwn mae pob enw y cyfeirir atynt mewn arfer da wedi'u haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.*